

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Busnes

Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog i baratoi
ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad

Mawrth 2011



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8885
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Chamber.Secretariat@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Busnes

Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog i baratoi
ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad

Mawrth 2011



Y Pwyllgor Busnes

Mae'r Pwyllgor Busnes yn rhoi cyngor am sut y caiff busnes y Cynulliad ei reoli ac am weithdrefnau ac arferion cyffredinol y Cynulliad. Y Llywydd sy'n cadeirio'r Pwyllgor, a'i aelodau yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth, a Rheolwr Busnes pob un o grwpiau gwleidyddol eraill y Cynulliad. Disgrifir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn enwedig yn Rheol Sefydlog 11. Mae'r rhain ar gael yn www.cynulliadcymru.org.

Aelodau'r Pwyllgor

<i>Aelod Pwyllgor</i>	<i>Plaid</i>	<i>Etholaeth neu Ranbarth</i>
Dafydd Elis-Thomas (Cadeirydd)	Plaid Cymru	Dwyfor Meirionnydd
Peter Black	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Gorllewin De Cymru
Jocelyn Davies	Plaid Cymru	Dwyrain De Cymru
Jane Hutt, (y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb)	Llafur	Bro Morgannwg
Nick Ramsay	Y Ceidwadwyr Cymreig	Mynwy

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Argymhellion y Pwyllgor	7
Cyflwyniad	12
Cefndir	12
Cylch Gorchwyl	13
Sut yr aeth y Pwyllgor ati.....	14
Cynigion ar gyfer newid	14
Swyddi a Phenodiadau'r Cynulliad	16
Y Llywydd a'r Dirprwy	16
Penodiadau eraill	17
Y Cyfarfod Llawn a Threfn Busnes	18
Categoriâu Busnes	18
Amseru hyblyg.....	19
Busnes cynnar Cynulliad newydd	20
Arloesi ym Musnes y Cyfarfod Llawn	21
Newidiadau eraill.....	23
Pwyllgorau	25
Sefydlu pwyllgorau a'u cylch gwaith	25
Gweithrediad y pwyllgorau.....	27
Deddfwriaeth	30
Yr Aelod sy'n Gyfrifol	30
Deddfwriaeth arfaethedig Aelodau a Phwyllgorau.....	30
Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol	31
Mesurau'r Cynulliad.....	32
Cydsyniad yng nghyswllt Biliau Senedd y DU	33
Hysbysu yng nghyswllt Biliau Senedd y DU	34
Mecanwaith subsidiaredd Ewrop.....	36
Cyllid	37

Proses flynyddol y gyllideb	37
Cyllideb Comisiwn y Cynulliad	38
Amcangyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol a'r Ombwdsmon ...	38
Cynigion cyllideb atodol	38
Adroddiadau ar y Trafodion.....	39
Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill	40
Cofnodi'r amser y mae'r Aelodau'n ei dreulio'n gwneud	
gweithgarwch cofrestradwy	40
Y Comisiynydd Safonau	41
Canllawiau a dogfennau cefndir	42
Goblygiadau'r Refferendwm o ran pwerau deddfu'r Cynulliad	43
Amserlen Cyfarfodydd Cyhoeddus	45
Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	46
Atodiad 1 - Rhestr o Ddogfennau Atodol	48
Atodiad 2 - Newidiadau wedi'u Marcio a Grid Esbonio (Saesneg yn	
unig)	50
Atodiad 3 - Tabl Trosi'r Rheolau Sefydlog	262
Atodiad 4 - Y Rheolau Sefydlog Newydd i'r Cynulliad gytuno arnynt	
.....	265

Rhagair y Cadeirydd

Rydym bellach yn ail ddegawd datganoli yng Nghymru, ac mae canlyniad diweddar y refferendwm, a oedd o blaid rhoi pwerau deddfu ehangach i'r Cynulliad, yn bleidlais o hyder yn y Cynulliad fel deddfwrfa, yn ein gweithdrefnau craffu ac yn ein rôl fel eiriolwyr dros bobl Cymru.

Fodd bynnag, ar drothwy'r Pedwerydd Cynulliad, mae angen inni sicrhau bod gweithdrefnau'r Cynulliad yn dal i weithio'n effeithiol er mwyn gwasanaethu pobl Cymru.

Mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau bod ein ffyrdd o weithio'n dal i fod yn arloesol, yn effeithiol ac yn hygyrch. Wrth adolygu ein Rheolau Sefydlog, cytunwyd mai'r nod y dylid ei osod yw sicrhau bod ein gweithdrefnau'n hwyluso trefniadau sydd er budd gorau'r Cynulliad drwyddo draw ac sy'n ei alluogi i gyflawni ei swyddogaethau statudol a chyfansoddiadol ac yntau'n gorff a etholir yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Felly, mae ein hargymhellion i ail-wneud ein Rheolau Sefydlog yn cynnwys mân-newidiadau a newidiadau sylweddol, gan sicrhau bod y Cynulliad, sy'n ddeddfwrfa gymharol fechan, yn ddigon hyblyg i addasu'r ffordd y mae'n cynnal ei fusnes yn ôl yr amgylchiadau.

Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau'n adlewyrchu arferion a chonfensiynau sydd wedi bwrw gwreiddiau yn y Trydydd Cynulliad. Mewn manau eraill, rydym wedi ceisio galluogi'r Cynulliad i wneud rhagor, gan ddileu cyfyngiadau diangen a chan gryfhau ein prosesau craffu, drwy gyflwyno darpariaethau newydd er mwyn inni allu craffu'n well ar gyfreithiau'r Cynulliad, Biliau Senedd y DU neu ddeddfwriaeth Ewrop sy'n effeithio ar Gymru.

Rydym hefyd wedi ceisio creu mwy o gyfleoedd i Aelodau unigol roi cychwyn ar fusnes a dylanwadu arno, cyfle yr wyf yn gobeithio y bydd Aelodau sy'n dychwelyd ac Aelodau newydd, ill dau, yn ceisio manteisio arnynt yn y Pedwerydd Cynulliad.


Mae'n werth dweud mai dyma'r tro cyntaf i'r Pwyllgor Busnes adolygu ein gweithdrefnau o'u cwr. Mae'r broses hon wedi bod yn un adeiladol,

a'r Rheolwyr Busnes wedi pwyso ar eu profiad hwy eu hunain wrth gytuno i'r newidiadau egwyddorol a phragmatig yr ydym yn eu hargymell. Drwy ein trafodaethau cyhoeddus, rydym wedi sicrhau consensws trawsbleidiol o blaid ffyrdd newydd o weithio yn y dyfodol.

Dyma'r tro cyntaf hefyd inni gael tystiolaeth ysgrifenedig ynghylch dulliau gweithio'r Cynulliad. Ar ran y Pwyllgor, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi'n cynghori ac sydd, wrth ymateb i'n cais am dystiolaeth, wedi rhannu gyda ni eu profiadau o weithio gyda'r Cynulliad. Er nad oedd modd adlewyrchu rhai o'r materion a godwyd yn y diwygiadau i'n Rheolau Sefydlog, bydd pob un o'r cyflwyniadau a gawsom yn goleuo'r ffordd y bydd Aelodau, pwyllgorau a'r Cynulliad drwyddo draw'n gweithredu yn y dyfodol.

Y Rheolau Sefydlog yw'r rheolau sylfaenol sy'n llywodraethu'r ffordd y byddwn yn cynnal ein busnes yn y Cynulliad Cenedlaethol. Dylent fod yn ddealladwy yn hytrach nag yn ddirgelwch. Dylent agor drysau yn hytrach na'u cau. Dylent fod o gymorth yn hytrach nag yn rhwystr. Felly, rydym yn argymhell mai un o dasgau cyntaf Llywydd a Phwyllgor Busnes y Cynulliad nesaf ddylai fod cyhoeddi canllawiau ategol i'r Aelodau, i'w staff ac i'r cyhoedd er mwyn iddynt ddeall ein prosesau'n well ac er mwyn esbonio sut y gellir defnyddio'r arfau a gynigir ganddynt i wasanaethu pobl Cymru.

Cymeradwyaf y set newydd o Reolau Sefydlog i'r Cynulliad.



Y Gwir Anrh. yr Arglwydd Elis-Thomas AC, y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

Argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad cyffredinol

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Cynulliad yn ail-wneud y Rheolau Sefydlog fel y'u gwelir yn Atodiad 4.

Crynodeb o'r prif newidiadau

Rhestrir y prif newidiadau i'r Rheolau Sefydlog isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd â'r argymhellion:

Swyddi a Phenodiadau'r Cynulliad

- Cyflwyno mecanwaith symlach i'r Llywydd roi canllawiau i'r Aelodau ynglŷn â chynnal busnes y Cynulliad (diwygio RhS 2.17).
(Tud 16)
- Cynnwys darpariaeth newydd sy'n caniatáu i'r Llywydd a'r Dirprwy pleidleisio pan fydd deddfwriaeth yn mynnu bod pleidlais ar benderfyniad yn dibynnu ar gyfran o gyfanswm Aelodau'r Cynulliad (40 o blith 60 Aelod) yn hytrach na dim ond dwy ran o dair o'r rheini sy'n pleidleisio (RhS 2.20A newydd).
(Tud 16)
- Cynnwys Rheol Sefydlog newydd yn egluro gweithdrefn gyson ar gyfer penodi (a diswyddo) deiliaid swyddi allanol nad oes cyfeiriad atynt yn y Rheolau Sefydlog, er enghraifft Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiynydd Safonau a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (RhS 33A newydd).
(Tud 17)

Y Cyfarfod Llawn a Threfn Busnes

- Cyflwyno mwy o hyblygrwydd o ran amseru a strwythur diwrnodau Cyfarfodydd Llawn (RhS 7.5A newydd). Byddai fframwaith dyrannu amser Cyfarfodydd Llawn rhwng gwahanol fathau o fusnes yn cael ei bennu gan y Pwyllgor Busnes yn amserlen amlinellol y Cynulliad (diwygio RhS 6.1).
(Tud 19)

- Cynnwys darpariaethau'n dweud sut y trefnid busnes cynnar ar ôl etholiad Cynulliad (RhS 7.5B-G newydd).
(Tud 20)
- Rhoi mwy o gyfleoedd i Aelodau unigol, ar wahân i aelodau'r llywodraeth, gyflwyno dadleuon am gynigion a gyflwynir yn eu henw (RhS 7.18A a 7.22B newydd).
(Tud 22)

Pwyllgorau

- Cael un dull o sefydlu pwyllgorau yn lle'r ystod o fecanweithiau a ddefnyddir ar hyn o bryd. Byddai hwnnw'n caniatáu i bob Cynulliad newydd benderfynu ar strwythur sy'n gweddu orau iddo o dan amgylchiadau penodol (diwygio RhS 12 a 21).
(Tud 26)
- Dileu'r cyfeiriadau at bwyllgorau penodol sydd yn y Rheolau Sefydlog (ac eithrio'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, a'r Pwyllgor Busnes) ac yn lle hynny, ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Busnes sicrhau darpariaeth ar gyfer y prif swyddogaethau a restrir yn y Rheolau Sefydlog, megis craffu ar gyllidebau a deddfwriaeth, wrth gynnig y strwythur pwyllgorau (diwygio RhS 13 - 20 a RhS 28).
(Tud 27)

Deddfwriaeth

- Estyn y cyfnod a ganiateir ar gyfer cyflwyno Mesur arfaethedig Aelod yn Rheolau Sefydlog 23.98 (ar ôl gwneud y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol a gynigiwyd gan yr Aelod hwnnw) a 23.105 (ar ôl cael ei ddethol yn y balot a chael cytundeb y Cynulliad i'w gyflwyno), o chwe mis i naw mis er mwyn i'r Aelod gael rhagor o amser i baratoi.
(Tud 30)
- Cynnwys darpariaeth sy'n galluogi trosglwyddo deddfwriaeth arfaethedig Aelod a Phwyllgor i Lywodraeth Cymru (RhS 21.4A(iii) newydd, diwygio RhS 21A.9, RhS 21A.16, RhS 21A.17).
(Tud 31)

- Cyflwyno Rheol Sefydlog newydd i ganiatáu cyfnod o bythefnos rhwng gosod Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft a'r ddadl amdano mewn Cyfarfod Llawn (RhS 22.34A newydd).
(Tud 31)
- Egluro a chryfhau'r gofyniad am amcangyfrifon o'r costau yn y Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gyda Mesur arfaethedig (diwygio RhS 23.18(vi)(a)).
(Tud 32)
- Cyflwyno cyfnod diwygio dewisol newydd ar gyfer Mesurau ar ôl gwaredu'r holl welliannau yng Nghyfnod 3, a gelwid hynny'n "y Cyfnod Adrodd" (RhS 23.57A a RhS23.57B newydd).
(Tud 33)
- Diwygio'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â memoranda cydsyniad deddfwriaethol er mwyn caniatáu gwell craffu ar ddarpariaethau perthnasol ym Miliau Senedd y DU, cyn gwahodd y Cynulliad i gydsynio iddynt (RhS 26.3A, RhS 26.3B a RhS 26.6 newydd).
(Tud 34)
- Cynnwys Rheol Sefydlog newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol rhoi hysbysiad ffurfiol ac esboniad ynghylch Biliau Senedd y DU sydd naill ai'n cynnwys darpariaethau (ac eithrio'r rheini y cyfeirir atynt yn Rheol Sefydlog 26) sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ond sy'n effeithio'n sylweddol ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol, neu sy'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad (RhS 26A newydd).
(Tud 35)
- Cyflwyno mecanwaith ffurfiol o fewn y Rheolau Sefydlog i dywys y Cynulliad wrth iddo ystyried cymhwyso egwyddorion sybsidiaredd a chymesuredd fel y'u ceir ym Mhrotocol Cytuniad Lisbon (RhS 15.9 - 15.11 newydd).
(Tud 36)

Cyllid

- Ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Busnes gyhoeddi amserlen bob blwyddyn ar gyfer ystyried cyllideb ddrafft y llywodraeth, yn

hytrach na phennu'r dyddiadau mewn Rheolau Sefydlog (RhS 27.0D newydd).

(Tud 37)

- Fel rhan o'r amserlen honno, gwarantu cyfnod o 5 wythnos o leiaf i'r pwyllgor cyfrifol graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

(Tud 37)

Adroddiadau ar y Trafodion

- Diwygio Rheol Sefydlog 30 sy'n ymwneud â'r trefniadau ar gyfer cofnodi penderfyniadau (cofnodion) ac adrodd ar gyfarfodydd cyhoeddus, yn unol ag argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Dwyieithog, gan ddarparu ar gyfer dilyn yr un drefn wrth gofnodi ac adrodd ar drafodion pwyllgorau a thrafodion Cyfarfodydd Llawn (diwygio RhS 30).

(Tud 39)

Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau

- Cyflwyno Rheol Sefydlog newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau roi gwybod tua faint o amser y byddant yn ei dreulio'n gwneud gweithgarwch cofrestradwy, yn unol ag argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol ar Gyflogau a Threuliau ACau ac yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (RhS 31B newydd).

(Tud 41)

- Dileu Rheol Sefydlog 33 sy'n ymwneud â'r Comisiynydd Safonau, oherwydd bod honno wedi'i disodli yn sgîl pasio Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 (dileu RhS 33).

(Tud 41)

Argymhellion i Bwyllgor Busnes y Pedwerydd Cynulliad

Arloesi ym musnes y Cyfarfod Llawn

- Mae'r Pwyllgor Busnes yn argymhell y dylai'r Pedwerydd Cynulliad ystyried opsiynau ar gyfer gwneud busnes Cyfarfodydd Llawn yn fwy amserol.

(Tud 23)

Canllawiau a gwybodaeth gefndir

- Mae'r Pwyllgor Busnes yn argymhell mai un o dasgau cyntaf Llywydd a Phwyllgor Busnes y Cynulliad nesaf ddylai fod cyhoeddi canllawiau ategol i'r Aelodau, i'w staff ac i'r cyhoedd er mwyn iddynt ddeall ein prosesau'n well ac er mwyn esbonio sut y gellir defnyddio'r arfau y maent yn eu cynnig i wasanaethu pobl Cymru.

(Tud 42)

Refferendwm ar bwerau deddfu'r Cynulliad

- Caiff unrhyw newidiadau i'r Rheolau Sefydlog sy'n angenrheidiol yn sgîl dod â Rhan 4 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i rym eu cyflwyno i'r Pedwerydd Cynulliad eu hystyried a chytuno arnynt ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2011.

(Tud 43)

- Fodd bynnag, er mwyn i Reolau Sefydlog y Cynulliad allu darparu ar gyfer y pwerau a geir yn Rhan 4 y Ddeddf yn syth, cynhwyswyd diwygiad dros dro i'r adran sy'n ymwneud â "Dehongli". Mae'r diwygiad yn darparu y dylid dehongli unrhyw gyfeiriadau at "Mesurau" a "Mesurau arfaethedig" fel pe baent yn cynnwys cyfeiriadau at "eddfau'r Cynulliad" ac at "Biliau ar gyfer Deddfau" yn eu trefn, a chyfeiriadau at "Gymeradwyaeth Frenhinol (yn y Cyfrin Gyngor)" fel cyfeiriadau at "Gydsyniad Brenhinol", a hynny ar ôl i Ran 4 ddod i rym ond cyn i'r Rheolau Sefydlog gael eu diwygio yn ôl yr angen.

(Tud 44)

Cyflwyniad

1. Ar 11 Mai 2010, cytunodd y Pwyllgor Busnes i adolygu Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad.
2. Mae Rheol Sefydlog 11.7(iv) yn dweud mai rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Busnes yw gwneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Cynulliad wrth iddo gynnal ei fusnes, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog. Bydd unrhyw newid i'r Rheolau Sefydlog yn dod i rym drwy benderfyniad y Cynulliad os bydd dwy ran o dair o'r Aelodau sy'n pleidleisio yn ei gefnogi (Rheol Sefydlog 35.3).

Cefndir

3. Mae'r Rheolau Sefydlog yn ymwneud â phob agwedd ar drafodion y Cynulliad, er enghraifft: sut mae'r busnes yn cael ei drefnu mewn Cyfarfodydd Llawn, faint o amser sydd ar gael ar gyfer busnes y llywodraeth a'r gwrthbleidiau; sut y caiff yr Aelodau holi'r Gweinidogion; y broses ddeddfwriaethol; a sut y bydd yr Aelodau'n ysgwyddo'u rôl craffu mewn pwyllgorau.
4. Cytunwyd ar set bresennol y Rheolau Sefydlog¹ ddiwedd yr Ail Gynulliad a'u gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol, fel oedd yn ofynnol o dan ddarpariaethau trosiannol Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Wedi hynny, fodd bynnag, mae'r broses yn wahanol: cyfrifoldeb y Cynulliad yw ail-wneud a diwygio'r Rheolau Sefydlog ar sail cynigion gan y Pwyllgor Busnes (Rheol Sefydlog 35).
5. Mae'r Rheolau Sefydlog wedi'u rhoi ar brawf yn drwyadl yn ystod y Trydydd Cynulliad. Nid oes anawsterau mawr wedi codi yn eu sgîl ac ychydig o newidiadau y mae'r Cynulliad wedi'u gwneud iddynt er 2007. Serch hynny, mae nifer o ffactorau'n awgrymu bod angen adolygu'r Rheolau Sefydlog cyn diwedd y Cynulliad hwn:
 - mae ambell faes lle y byddai gwelliannau "technegol" yn gwneud y Rheolau Sefydlog yn eglurach;
 - mewn meysydd eraill, mae'r drefn a ddilynir mewn gwirionedd wedi ymwahanu oddi wrth y Rheolau Sefydlog ac ers hynny wedi datblygu'n gonfensiwn sy'n cael ei dderbyn; a

¹ [Rheolau Sefydlog y Trydydd Cynulliad](#)

- gellid ystyried newidiadau er mwyn caniatáu ar gyfer arloesi neu wella, er enghraifft, er mwyn ymateb i argymhellion pwyllgorau eraill a chyrrff allanol.

Cylch Gorchwyl

6. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Adolygiad yn ystyried newidiadau i'r Rheolau Sefydlog er mwyn:

- gwneud y Rheolau Sefydlog yn eglurach;
- eu cysoni â'r confensiynau ac â'r dulliau gweithio sydd wedi cael eu derbyn yn y Trydydd Cynulliad;
- caniatáu ar gyfer arloesi a gwella.²

7. Penderfynodd y Pwyllgor y dylai'r egwyddorion a ganlyn fod yn sail i'r adolygiad:

Dylai gweithdrefnau'r Cynulliad hwyluso trefniadau sydd er budd gorau'r Cynulliad drwyddo draw ac sy'n ei alluogi i gyflawni ei swyddogaethau statudol a chyfansoddiadol fel y corff a etholir yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.³

8. Yn benodol, cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Rheolau Sefydlog wneud y canlynol:

- caniatáu i'r Cynulliad ystyried unrhyw fater sy'n berthnasol i Gymru neu i'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun;
- rhoi'r cyfle i'r Llywodraeth gyflawni ei busnes, ar yr amod bod y Cynulliad yn cael craffu'n ddigonol ac yn briodol arno a'i gymeradwyo;
- rhoi'r cyfle i grwpiau'r gwrthbleidiau, pwyllgorau, Comisiwn y Cynulliad ac Aelodau unigol gychwyn busnes a dylanwadu arno;
- rhoi'r cyfle i'r cyhoedd ymgysylltu â gwaith y Cynulliad;
- bod yn addas ar gyfer unrhyw fodel o lywodraeth - lleiafrifol, mwyafrifol neu glymblaid; a
- bod mor hyblyg a dealladwy â phosibl gyda chynsail a chonfensiwn yn gefn iddynt.⁴

² [Galwad am Dystiolaeth.](#)

³ Ibid.

⁴ [Galwad am Dystiolaeth.](#)

Sut yr aeth y Pwyllgor ati

9. Ar 26 Mai 2010, galwodd y Pwyllgor am dystiolaeth i lywio'i adolygiad.⁵ Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 23 Gorffennaf 2010. Gwahoddwyd Cadeiryddion y Pwyllgorau hefyd i gyfrannu at yr adolygiad, gan ganolbwyntio'n benodol ar eu profiadau wrth iddynt weithio gyda'r Rheolau Sefydlog presennol a'r hyblygrwydd yr oeddent yn ei gynnig neu'r cyfyngiadau y daethant ar eu traws.

10. Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, cynhaliwyd trafodaeth yn y Pierhead ar 2 Gorffennaf 2010 gyda phanel o arbenigwyr. Rhoesant hwythau eu barn am sut y gellid datblygu'r Rheolau Sefydlog er mwyn gwireddu prif swyddogaethau'r Cynulliad.

11. Yn ystod tymor yr hydref, ystyriodd y Pwyllgor Busnes gyfres o bapurau yn amlinellu'r cynigion ar gyfer newid. Ystyriodd yr Aelodau y papurau cychwynnol yn breifat gan ymgynghori â'u grwpiau cyn cynnal y trafodaethau dilynol yn gyhoeddus.

12. Ystyriwyd hefyd yr ymatebion a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus a chyfeirir atynt yn yr Adroddiad hwn lle bo hynny'n berthnasol. Serch hynny, roedd llawer o'r sylwadau a gafwyd yn ymwneud â dulliau a phrosesau gweithio'r Cynulliad ac nid oes angen newid y Rheolau Sefydlog er mwyn rhoi'r rheini ar waith. Bydd y Pedwerydd Cynulliad yn ystyried awgrymiadau o'r fath. Mae rhestr o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus a nodyn am y digwyddiad yn y Pierhead i'w gweld yn y 'Rhestr o'r Dystiolaeth Ysgrifenedig' ar ddiwedd yr adroddiad.

Cynigion ar gyfer newid

13. Mae'r adroddiad hwn yn rhestru'r prif gynigion y cytunodd y Pwyllgor Busnes arnynt. Fe'u trafodir yn unol â'r themâu a ganlyn:

- Swyddi a Phenodiadau'r Cynulliad;
- Y Cyfarfod Llawn a Threfn Busnes;
- Pwyllgorau;
- Deddfwriaeth;
- Cyllid;
- Adroddiadau ar y Trafodion;

⁵ [Galwad am Dystiolaeth.](#)

- Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau;
- Canllawiau a gwybodaeth gefndir; a
- Refferendwm ar bwerau deddfu'r Cynulliad.

14. Fel rhan o'r adolygiad, mae'r Pwyllgor wedi cytuno y dylid aildrefnu'r Rheolau Sefydlog yn sgîl creu'r Rheolau Sefydlog ychwanegol ac er mwyn ei gwneud yn haws llywio drwyddynt.

15. Mae adran 'Dehongli' y Rheolau Sefydlog wedi'i diwygio er mwyn egluro'r derminoleg a ddefnyddir yn y Rheolau Sefydlog. Mae hefyd yn darparu trefniadau trosiannol sy'n ymwneud â gweithredu Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

16. Mae ieithwedd y Rheolau Sefydlog Cymraeg wedi'i newid hefyd er mwyn sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn gyson â'r derminoleg a gymeradwyir ac a argymhellir gan banel safoni termau Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

17. Dyma sut y cyflwynir y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog:

- Yn Atodiad 1, rhestrir yr holl bapurau a'r dogfennau cefndir a ystyriwyd gan y Pwyllgor Busnes, ynghyd â chofnod o benderfyniadau'r Pwyllgor;
- Yn Atodiad 2, mae pob newid i'r Rheolau Sefydlog y cytunodd y Pwyllgor Busnes arnynt wedi'i farcio, ynghyd ag esboniad manwl am bob gwelliant. Mae rhai Rheolau Sefydlog sydd heb eu cynnwys yn Atodiad 2 oherwydd na chynigir yr un newid iddynt, ac eithrio gwelliannau canlyniadol;
- Yn Atodiad 3, ceir tabl trosi sy'n rhestru cyfeiriadau'r hen Reolau Sefydlog a chyfeiriadau'r rhai newydd; ac
- Yn Atodiad 4, ceir y set newydd o Reolau Sefydlog y gwahoddir y Cynulliad i gytuno arnynt (h.y. y Rheolau Sefydlog diwygiedig).

18. Cofiwch fod y cyfeiriadau at Reolau Sefydlog yng nghorff yr adroddiad yn cyfeirio at y cyfeiriadau yn Atodiad 2, nid at y set newydd o Reolau Sefydlog sydd yn Atodiad 4.

Swyddi a Phenodiadau'r Cynulliad

19. Yn Rheolau Sefydlog 2 i 5, eglurir y gweithdrefnau ar gyfer penodi neu enwebu pobl i Swyddi'r Cynulliad: y Llywydd a'r Dirprwy, Comisiynwyr y Cynulliad, y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol.

Y Llywydd a'r Dirprwy

20. Mae Rheol Sefydlog (RhS) 2 yn egluro'r gweithdrefnau ar gyfer ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd, yn ogystal â manylu ar eu swyddogaethau. Mae'r Pwyllgor wedi awgrymu mân-newidiadau i'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Llywydd.

21. Mae'r Pwyllgor yn argymhell cyflwyno mecanwaith symlach i'r Llywydd roi canllawiau i'r Aelodau ynglŷn â chynnal busnes y Cynulliad (diwygio RhS 2.17).

22. Byddai'r cynnig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes cyn rhoi canllawiau, yn hytrach na'r drefn gymysg bresennol, pan fydd angen i'r Cynulliad gadarnhau rhai mathau o ganllawiau ond heb fod angen gwneud hynny yng nghyswllt mathau eraill. Byddai'r mecanwaith symlach felly yn berthnasol pryd bynnag y bydd cyfeiriad yn y Rheolau Sefydlog at y Llywydd yn rhoi canllawiau.

23. Mae'r Pwyllgor yn argymhell cynnwys darpariaeth newydd sy'n caniatáu i'r Llywydd a'r Dirprwy bleidleisio pan fydd deddfwriaeth yn gofyn am gyfran o holl Aelodau'r Cynulliad (40 o blith 60 Aelod) i bleidleisio o blaid cynnig yn hytrach na dim ond dwy ran o dair o'r rheini sy'n pleidleisio (RhS 2.20A newydd).

24. Ar hyn o bryd, mae'r Rheolau Sefydlog yn dweud na chaiff y Llywydd na'r Dirprwy bleidleisio mewn Cyfarfod Llawn oni bai pan fyddant yn defnyddio pleidlais fwrw. Os oes gofyn cael cytundeb 40 o blith y 60 Aelod mewn pleidlais, ac os na chaiff y Llywydd a'r Dirprwy bleidleisio, mae'n dilyn bod hynny'n cael yr un effaith â phe baent yn pleidleisio yn erbyn y cynnig.

25. Byddai'r ddarpariaeth newydd yn caniatáu i'r Llywydd a'r Dirprwy ddefnyddio'u rhyddid i bleidleisio o dan amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, mewn pleidlais ar ddiswyddo'r Archwilydd Cyffredinol.

26. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymhell y dylai swyddogaethau'r Llywydd gynnwys rôl cynrychioli'r Cynulliad er mwyn adlewyrchu'r arferion sydd wedi bwrw gwreiddiau (gwelliant RhS 2.15). Byddai hyn

yn cynnwys rôl "llysgennad" y Cynulliad ym maes cysylltiadau allanol a rhyngwladol, er enghraifft yn CALRE (Cynhadledd Cynullïadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop). Byddai hefyd yn ei gwneud yn glir i'r rheini y mae'n ddyletswydd arnynt i ymgynghori â'r Cynulliad at bwy y dylent fynd yn y lle cyntaf.

27. Mae'r Rheolau Sefydlog diwygiedig sy'n ymwneud â swyddi'r Cynulliad ac esboniad o'r diwygiadau i'w gweld yn Atodiad 2. Cynigir mân-newidiadau hefyd i Reolau Sefydlog 3 a 4, sy'n ymwneud â Chomisiwn y Cynulliad a Gweinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru, yn y drefn honno. Mae'r newidiadau hyn hefyd i'w gweld yn Atodiad 2.

Penodiadau eraill

28. Ar wahân i swyddi'r Cynulliad a restrir uchod, mae'r Cynulliad ar hyn o bryd hefyd yn penodi neu'n enwebu ar gyfer swyddi eraill, gan gynnwys: Archwilydd Cyffredinol Cymru;⁶ y Comisiynydd Safonau;⁷ a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.⁸ Caiff y Cynulliad derfynu penodiadau i'r Bwrdd Taliadau hefyd (drwy benderfyniad a gynigir gan y Comisiwn).⁹

29. Casgliad y Pwyllgor oedd y dylid cael Rheol Sefydlog newydd yn egluro gweithdrefn gyson ar gyfer penodi (a diswyddo) deiliaid swyddi allanol nad oes cyfeiriad atynt fel arall mewn Rheolau Sefydlog (RhS 33A newydd).

30. Byddai'r Rheol Sefydlog (gweler Atodiad 2) hefyd yn galluogi pwyllgorau i gynnal gwrandawiadau cyn penodi, cyn gofyn yn ffurfiol i'r Cynulliad benodi rhywun - arfer sydd wedi'i dreialu gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Safonau wrth benodi'r Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd Safonau, yn y drefn honno. Byddai hyn yn cynnig ffordd agored a thryloyw o graffu ar yr ymgeisydd yn ogystal â chynnig sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad wrth iddo benderfynu.

⁶ [Deddf Llywodraeth Cymru 2006](#), Atodlen 8, para 14 (Saesneg).

⁷ [Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#), adran 1.

⁸ [Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus \(Cymru\) 2005](#), Atodlen 1, para 1 (Saesneg).

⁹ [Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru \(Taliadau\) 2010](#), adran 5.

Y Cyfarfod Llawn a Threfn Busnes

31. Mae'r Rheolau Sefydlog a ganlyn yn ymwneud â'r Cyfarfod Llawn ac â threfn busnes: trefn busnes yn y Cynulliad (RhS 6), busnes yn y Cyfarfodydd Llawn (RhS 7), trefn yn y Cyfarfodydd Llawn (RhS 8), cwestiynau ysgrifenedig (RhS 9), y Pwyllgor Busnes (RhS 11) a gweithdrefnau gosod a chyflwyno (RhS 29). Mae a wnelo'r prif newidiadau o sylwedd â Rheolau Sefydlog 6 a 7.

Categoriâu Busnes

32. Mae Rheol Sefydlog 7 yn cyfeirio at dri chategori busnes mewn Cyfarfodydd Llawn: "busnes y llywodraeth", "busnes y Cynulliad" a "busnes heblaw busnes y llywodraeth". Diffinnir yn eithaf manwl yr hyn sy'n dod o dan bob categori, ac mae'r un peth yn wir am y darpariaethau sy'n penderfynu pryd y dylid ymdrin â'r eitemau busnes hyn (trafodir hyn isod). Ceir darpariaethau hefyd sy'n pennu bod yn rhaid trafod rhai eitemau busnes penodol bob blwyddyn.

33. **Mae'r Pwyllgor yn argymhell cwtdogi ar nifer categorïau busnes y Cyfarfodydd Llawn a symleiddio'u diffiniadau (diwygio RhS 6.5, 6.6 a 7.10 - 7.12).**

34. Cynigir y dylid cael dau gategori busnes yn unig yn y dyfodol: "busnes y llywodraeth" a "busnes y Cynulliad". Byddai "busnes y Cynulliad" yn cwmpasu'r holl gategoriâu busnes a elwir ar hyn o bryd yn fusnes "heblaw busnes y llywodraeth" neu'n fusnes "y Cynulliad".

35. Gwarchodir y gymhareb 3:2 o ran yr amser a neilltuir ar gyfer busnes y llywodraeth a busnes heblaw busnes y llywodraeth yn ystod blwyddyn y Cynulliad, er y byddai'n awr yn berthnasol i'r gymhareb rhwng yr amser a neilltuir ar gyfer busnes y "llywodraeth" a'r categori newydd, sef "busnes y Cynulliad".

36. Yn ddarostyngedig i'r Rheolau Sefydlog, y llywodraeth fydd yn parhau i reoli'r gwaith o drefnu ei busnes ei hun, tra bo trefnu holl "fusnes y Cynulliad" mewn Cyfarfodydd Llawn (h.y. a ddylid neilltuo amser i un o eitemau busnes y "Cynulliad" neu pryd y dylid gwneud) yn ddarostyngedig i bleidlais addasedig wedi'i phwysoli¹⁰ yn y Pwyllgor

¹⁰ Bydd gan Aelodau'r Pwyllgor Busnes un bleidlais ar gyfer pob aelod o'r grŵp gwleidyddol y maent yn ei gynrychioli. Gelwir hyn yn "bleidleisio wedi'i bwysoli". Ystyr pleidleisio addasedig wedi'i bwysoli yw bod nifer y pleidleisiau sydd ganddynt yn cael ei ostwng yn ôl nifer yr Aelodau yn y grŵp gwleidyddol sydd hefyd yn aelodau o'r llywodraeth (RhS 11.5).

Busnes, sef pleidlais nad yw ond yn berthnasol ar hyn o bryd i fusnes "heblaw busnes y llywodraeth". Byddai penderfyniadau eraill yn y Pwyllgor Busnes yn parhau i fod yn ddarostyngedig i bleidlais lawn wedi'i phwysoli (diwygio RhS 11.7(ii)).

37. Mae'r Rheolau Sefydlog presennol yn ei gwneud yn ofynnol cynnal nifer o ddadleuon blynyddol, megis dadl ynghylch adroddiad blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu adroddiad Comisiynydd Plant Cymru.

38. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r gofynion ar gyfer cynnal dadleuon blynyddol fod yn llai penodol, er na fyddai hyn yn cyfyngu ar allu'r Cynulliad i drafod adroddiadau blynyddol pe bai'r Llywodraeth yn cynnig hynny neu pe bai'r Pwyllgor Busnes yn cytuno (diwygio RhS 7.61 - 7.63).

39. Byddai hyn hefyd yn golygu y gallai gwaith craffu pwyllgorau ar adroddiadau o'r fath sbarduno'r mathau hyn o ddadleuon, os dyna'u dymuniad. Byddai hyn yn ymateb i faterion a godwyd gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus¹¹ a'r Comisiynydd Plant¹² yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor.

Amseru hyblyg

40. Cred y Pwyllgor y dylid diwygio'r darpariaethau ynghylch strwythur diwrnodau Cyfarfodydd Llawn er mwyn ymateb i ofynion busnes, er enghraifft, drwy allu bod yn hyblyg i benderfynu pryd i gynnal busnes, yn ystod y prynhawn a hefyd rhwng diwrnodau.

41. Mae'r Pwyllgor yn argymhell cyflwyno mwy o hyblygrwydd o ran amseru a strwythur diwrnodau Cyfarfodydd Llawn (RhS 7.5A newydd). Byddai fframwaith ar gyfer dyrannu amser Cyfarfodydd Llawn rhwng gwahanol fathau o fusnes yn cael ei bennu gan y Pwyllgor Busnes yn amserlen amlinellol y Cynulliad (diwygio RhS 6.1).

42. Byddai'r newid hwn yn dileu'r cyfyngiadau sydd, yn eu hanfod, yn golygu na ellir trafod dim byd ond busnes y "llywodraeth" ar ddydd Mawrth, ac, fel rheol, na ellir trafod dim byd ond busnes y "llywodraeth" rhwng 1.30 a 2.30pm ar ddydd Mercher, a dim ond busnes y "Cynulliad" (yn ôl y diffiniad newydd ohono uchod) ar ôl 2.30pm

¹¹ [SOR1 \(Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus\)](#)(Saesneg).

¹² [SOR14 \(Comisiynydd Plant Cymru\)](#) (Saesneg).

43. Byddai felly yn rhoi'r hyblygrwydd i'r Pwyllgor Busnes gytuno ar batrwm gwahanol i'r hyn a welwyd yn y Cynulliad hwn, (er y byddai'r patrwm hwnnw'n un rheolaidd) ynteu gynnal y drefn bresennol. Serch hynny, ni fyddai'r amser a neilltuir drwyddo draw i fusnes y Llywodraeth a busnes y Cynulliad yn newid. Dros gyfnod, byddai'n rhaid glynu o hyd at y gymhareb 3:2 sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 7.6.

44. At hynny, fel rheol, byddai gofyn ymdrin ag eitemau'r llywodraeth yn gyntaf, fel sy'n wir yn awr. I gloi, byddai rhai mathau o fusnes yn dal i gael eu blaenoriaethu oherwydd y byddai modd ymdrin â hwy heb rybudd (mae'r eitemau busnes hyn yn debyg i'r hyn a ddiffinnir ar hyn o bryd yn fusnes "y Cynulliad") (RhS 7.15).

45. Er mwyn hwyluso'r gwaith o gynllunio busnes y Cyfarfodydd Llawn, caiff patrwm rheolaidd ar gyfer busnes y Cyfarfodydd Llawn ei gytuno a'i gyhoeddi gan y Pwyllgor Busnes mewn amserlen amlinellol o leiaf chwe mis ymlaen llaw (diwygio RhS 6.1).

46. Serch hynny, byddai gan y Pwyllgor Busnes yr hyblygrwydd o hyd i addasu'r amserlen hon yn ystod y tymor pe bai angen er mwyn ymateb i ofynion busnes Cyfarfodydd Llawn ac er mwyn eu rheoli'n effeithiol.

Busnes cynnar Cynulliad newydd

47. Ar ddechrau'r Trydydd Cynulliad, defnyddiwyd Rheol Sefydlog dros dro er mwyn trefnu'r busnes cynnar cyn penodi'r Pwyllgor Busnes.

48. Casgliad y Pwyllgor oedd y dylid cynnwys darpariaethau tebyg yn y Rheolau Sefydlog yn dweud sut y bydd busnes cynnar yn cael ei drefnu. Byddai'r rheini'n berthnasol ar ôl pob etholiad Cynulliad (RhS 7.5B - 7.5G newydd).

49. Mae'r darpariaethau newydd hyn yn dweud pwy sy'n penderfynu ar ddyddiadau ac amserau'r cyfarfodydd cynnar hyn, gan gynnwys sut mae hysbysu'r Aelodau, a pha fath o fusnes y ceir ymdrin ag ef yn y Cyfarfodydd Llawn hyn. Ni chaiff pleidlais ar enwebu rhywun ar gyfer swydd y Prif Weinidog ei chynnal oni fydd y Cynulliad yn cytuno i hynny drwy benderfyniad.

Arloesi ym Musnes y Cyfarfod Llawn

50. Yn unol ag egwyddorion yr adolygiad, mae'r Pwyllgor wedi cynnig nifer o newidiadau er mwyn sicrhau bod busnes y Cyfarfodydd Llawn yn dal yn rhan berthnasol a gwerthfawr o drafodion y Cynulliad.

Cwestiynau

51. Ar hyn o bryd caiff pob Aelod gyflwyno 2 gwestiwn ar y mwyaf i bob un o Weinidogion Cymru neu i'r Cwnsler Cyffredinol (1 cwestiwn i'r Prif Weinidog) a dewisir 15 cwestiwn ar hap i'w hateb. Bydd unrhyw gwestiwn a gyflwynir ar gyfer y sesiwn honno nad yw'n cyrraedd y 15 uchaf yn methu ac ni chaiff ei ateb. Gall hyn olygu bod yr Aelodau a'r staff yn gwastraffu eu hamser.

52. Mae'r Pwyllgor yn argymhell newid y weithdrefn a bod y Llywydd yn gyntaf yn dewis enwau'r Aelodau hynny a gaiff gyflwyno cwestiynau llafar. Wedyn, ni fyddai ond angen i'r Aelodau hynny sydd yn y '15 uchaf' gyflwyno cwestiynau. Byddai hyn yn symleiddio'r broses ac yn rhoi rhagor o gyfle i'r Aelodau ystyried ffocws eu cwestiynau a pha mor amserol ydynt (RhS 7.52A a 7.52B newydd, diwygio 7.53).

Y Ddadl Fer

53. Cynhelir y Ddadl Fer bob wythnos. Dewisir Aelod mewn balot wythnosol a rhoddir 15 munud iddo siarad am ei ddewis bwnc yr wythnos wedyn. Caiff y Gweinidog ymateb. Cred y Pwyllgor fod rhoi rhagor o rybudd rhwng dyddiad y balot a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno dewis bwnc Aelodau yn rhoi mwy o amser iddynt ystyried y pwnc hwnnw, ymgysylltu ag eraill a chreu mwy o ddiddordeb allanol yn eu dewis dadl. Mae hyn yn adlewyrchu cynigion a gyflwynwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru¹³ a Materion Cyhoeddus Cymru.¹⁴

54. Mae'r Pwyllgor yn argymhell dileu'r gofyniad yn y Rheolau Sefydlog i gynnal y dadl fer bob wythnos (diwygio RhS 7.64). Yn hytrach, byddai amserlen amlinellol busnes Cyfarfodydd Llawn y Cynulliad yn cynnwys manylion am amllder y dadleuon (gweler paragraff 41 uchod). Mae a wnelo hyn â dymuniad y Pwyllgor i roi mwy o amrywiaeth o gyfleoedd i'r Aelodau gyflwyno dadleuon mewn Cyfarfodydd Llawn, a sonnir am hyn yn yr adran a ganlyn.

¹³ [SOR10 \(Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru\)](#) (Saesneg).

¹⁴ [SOR7 \(Materion Cyhoeddus Cymru\)](#) (Saesneg).

Cyfleoedd i Aelodau unigol

55. Un o'r egwyddorion sy'n sail i'r adolygiad yw y dylai Aelodau unigol gael y cyfle i gychwyn busnes a dylanwadu arno. Cafwyd ceisiadau hefyd mewn tystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad cyhoeddus¹⁵ ac yn ystod y drafodaeth yn y Pierhead¹⁶ am gynyddu'r cyfleoedd i Aelodau unigolgychwyn busnes, ar wahân i aelodau'r llywodraeth.¹⁷

56. Ymateb y Pwyllgor yw ei fod yn argymhell rhoi mwy o gyfleoedd i Aelodau unigol, ar wahân i aelodau'r llywodraeth, gyflwyno dadleuon am gynigion a gyflwynir yn eu henw (RhS 7.18A newydd, diwygio RhS 7.19 a RhS 7.22B newydd).

57. Cynhelir dadleuon yr wrthblaid bob wythnos mewn Cyfarfodydd Llawn. Serch hynny, ar gyfer Aelodau unigol, dim ond dau fecanwaith sydd ar gael iddynt ar gyfer sbarduno dadl mewn Cyfarfod Llawn: yn gyntaf, os byddant yn ddigon ffodus o gael eu dewis yn y balot ar gyfer Dadl Fer; ac yn ail, caiff Aelodau unigol gyflwyno cynnig heb ddyddiad trafod¹⁸ gan geisio cael y Pwyllgor Busnes i gytuno i neilltuo amser i'w drafod mewn Cyfarfod Llawn. Yn ystod y Trydydd Cynulliad, dim ond tri chynnig o'r fath sydd wedi'u cyflwyno ac wedi llwyddo i gael neilltuo amser iddynt mewn Cyfarfod Llawn. Cyflwynwyd y tri chynnig gyda chefnogaeth drawsbleidiol.

58. Byddai Rheol Sefydlog newydd yn galluogi Aelodau i ychwanegu eu henwau at gynigion neu welliannau a gyflwynwyd pe baent yn dymuno dangos eu cefnogaeth. Yn y dyfodol, gellid defnyddio'r mecanwaith hwn i adeiladu momentwm y tu ôl i gynnig a gyflwynwyd gan Aelod unigol (yn debyg i'r dull a ddefnyddir ar gyfer Datganiad Barn). Yna, gallai'r Pwyllgor Busnes neilltuo amser i drafod cynnig o'r fath, ar sail meini prawf a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes (e.e. faint o gefnogaeth y mae'r cynnig wedi'i ddenu neu pa mor amserol yw'r pwnc o'i gymharu â phynciau eraill).

¹⁵ [SOR8 \(yr Athro Laura McAllister a'r Dr Diana Stirbu\)](#) (Saesneg).

¹⁶ [Adolygu'r Rheolau Sefydlog: Nodyn am y digwyddiad yn y Pierhead \(Gorffennaf 2010\)](#).

¹⁷ Ystyr Aelod unigol yw Aelod nad sy'n Brif Weinidog, yn Weinidog Cymreig, yn Gwnsler Cyffredinol neu'n Ddirprwy Weinidog.

¹⁸ Bydd cynnig yn cael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad ar gyfer dadl gan wahodd y Cynulliad i gytuno arno. Gellir cynnig gwelliannau i'r cynnig hefyd. Cynnig nad oes slot wedi'i ddyrannu iddo ar agenda un o gyfarfodydd llawn y dyfodol yw cynnig heb ddyddiad trafod.

59. Gellid neilltuo amser i drafod cynigion a gyflwynwyd gan Aelodau unigol yn rheolaidd. Gellid pennu'r slotiau hyn yn amserlen amlinellol busnes y Cyfarfodydd Llawn a gyhoeddir gan y Pwyllgor Busnes (gweler paragraff 41 uchod).

60. At hynny, mae'r Pwyllgor yn argymhell cynnwys ail lwybr ar gyfer neilltuo amser i ddadleuon Aelodau unigol. Byddai Rheol Sefydlog 7 yn cynnwys darpariaethau fel y gallai'r Llywydd, ar y cyd â'r Pwyllgor Busnes, gynnal balotau achlysurol i ddethol unrhyw Aelod nad yw'n aelod o'r llywodraeth i gyflwyno cynigion i'w trafod mewn Cyfarfod Llawn a'r rheini'n gynigion y caniateir cynnig gwelliannau iddynt. Byddai hyn yn cynnig llwybr i'r Aelodau gyflwyno mater i'w drafod heb orfod ceisio cytundeb y Pwyllgor Busnes a heb gwrdd ag unrhyw feini prawf a bennir o dan drefn safonol cynigion heb ddyddiad trafod.

Cyfleoedd i godi busnes amserol mewn Cyfarfodydd Llawn

61. Roedd y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad cyhoeddus¹⁹ a'r rhai a gymerodd ran yn nhrafodaeth y Pierhead yn galw hefyd am fwy o gyfleoedd i drafod busnes amserol yn y Siambr. Cynigiwyd amrywiaeth o opsiynau i'r Pwyllgor ar gyfer gwneud pethau'n fwy amserol, gan gynnwys mecanweithiau a ddefnyddir mewn deddfwrfeydd eraill megis:

- cyflwyno cwestiynau amserol, gydag amrywiol opsiynau ar gyfer cyflwyno a dethol Aelodau i ofyn cwestiynau;
- caniatáu i unrhyw Aelod wneud datganiad byr yn y Cyfarfod Llawn am fater amserol neu fater sydd o ddiddordeb i'w etholwyr a/neu i'r cyhoedd yn gyffredinol.

62. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, oherwydd bod yr amser sydd ar gael i gynnal yr adolygiad yn brin, y dylid cyfeirio'r opsiynau ar gyfer cyflwyno busnes amserol i'r Pedwerydd Cynulliad eu hystyried yn fanylach.

Newidiadau eraill

63. Yn ogystal â'r prif gynigion a grybwyllir uchod, mae'r Pwyllgor wedi gwneud nifer o argymhellion i symleiddio a gwella'r Rheolau Sefydlog, neu i ffurfioli arferion sydd wedi bwrw gwreiddiau. Dyma'r cynigion hynny:

¹⁹ [SOR11 \(y Dr Ruth Fox, Cymdeithas Hansard\)](#).

- diwygio'r darpariaethau pleidleisio i adlewyrchu'r arferion sydd wedi bwrw gwreiddiau yn y Trydydd Cynulliad (diwygio RhS 6.8, RhS 7.30A - 7.35A newydd);
- egluro'r darpariaethau ar gyfer cynigion a gwelliannau (diwygio RhS 7.17 - 7.19A);
- cyflwyno darpariaethau newydd ar gyfer datganiadau llafar mewn Cyfarfodydd Llawn er mwyn gwneud y weithdrefn yn fwy tryloyw (RhS 7.41A newydd).

64. Mae darpariaethau Rheol Sefydlog 11 ynglŷn â'r Pwyllgor Busnes, a'r darpariaethau sy'n ymwneud â chategorïau busnes o fewn Rheol Sefydlog 7, i'w cynnwys yn Rheol Sefydlog 6, er mwyn grwpio'r holl Reolau Sefydlog sy'n ymwneud â sut y trefnir busnes y Cynulliad gyda'i gilydd.

65. Esbonnir yr holl newidiadau a gynigir sy'n ymwneud â'r Cyfarfodydd Llawn ac â threfn busnes yn Atodiad 2.

Pwyllgorau

66. Ar hyn o bryd, mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â busnes pwyllgorau wedi'u cynnwys yn Rheolau Sefydlog 10, 12 i 21 a 28. Mae Rheol Sefydlog 10 yn ymwneud â sut mae'r pwyllgorau'n gweithio ac mae'n disgrifio'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'w cyfarfodydd, i'w busnes ac i'w haelodau. Mae Rheolau Sefydlog 12 a 21 yn ymwneud â sefydlu pwyllgorau a'u cylch gwaith. Enwir pwyllgorau penodol a'u swyddogaethau yn Rheolau Sefydlog 13 i 20. Mae Rheol Sefydlog 28 yn disgrifio'r gweithdrefnau ar gyfer prosesu ac ystyried deisebau gan y cyhoedd.

67. Yn y bennod hon, sonnir am y prif newidiadau i'r Rheolau Sefydlog hyn. Ceir esboniad manwl o'r holl welliannau sy'n ymwneud â phwyllgorau yn Atodiad 2.

Sefydlu pwyllgorau a'u cylch gwaith

68. Yn y Trydydd Cynulliad, sefydlwyd pwyllgorau a neilltuwyd cylch gwaith a swyddogaethau iddynt, drwy gyfrwng amrywiaeth o fecanweithiau:

- ymdrinnir â nifer o bwyllgorau mewn Rheolau Sefydlog penodol gan ddiffinio'u cylch gwaith a'u gofynion (e.e. y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, y Pwyllgor Craffu ar y Prif Weinidog, a'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol);
- mae gan rai pwyllgorau Reol Sefydlog sy'n ymwneud â hwy'n benodol ac maent yn cyflawni swyddogaethau neu gyfrifoldebau a ddisgrifir mewn man arall yn y Rheolau Sefydlog (e.e. y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol);
- nid yw'r rhan fwyaf o'r pwyllgorau'n cael eu rhestru yn y Rheolau Sefydlog. Yn hytrach, fe'u sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 12 a 21 i gyflawni swyddogaethau penodol a ddisgrifir, i wahanol raddau, mewn Rheolau Sefydlog (e.e. y Pwyllgor Deisebau, y Pwyllgorau Deddfwriaeth, a'r Pwyllgorau Craffu);
- mae rhai pwyllgorau wedi'u sefydlu o dan Reol Sefydlog 21, drwy gytundeb y Cynulliad, i gyflawni rôl nad yw'n un o ofynion y Rheolau Sefydlog (e.e. y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, a'r Pwyllgor Darlledu gynt).

69. Roedd rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn poeni am strwythur a chapasiti'r system pwyllgorau. Dadleuai nifer o

ymatebwyr fod y gallu'n cael ei gyfyngu oherwydd bod nifer Aelodau'r Cynulliad mor fach.²⁰ Roeddent yn awgrymu bod lle i symleiddio'r system drwy gael rhesymwaith eglurach dros eu bodolaeth²¹ neu, fel arall, drwy gael pwyllgorau yn seiliedig ar bynciau i ysgwyddo'r gwaith craffu ar bolisi ac ar ddeddfwriaeth.²²

70. Soniodd Cadeiryddion Pwyllgorau hefyd am y ffordd yr eir ati ar hyn o bryd, ac awgrymodd rhai eu bod yn croesawu ei bod yn fwriad gan y Pwyllgor Busnes gynnwys hyblygrwydd yn y Rheolau Sefydlog.²³ Er nad oedd y rhan fwyaf o'r Cadeiryddion yn gweld y Rheolau Sefydlog presennol yn ddiangen o gyfyngol, dywedodd un Cadeirydd y gallai fod angen adolygu rôl a gweithrediad pwyllgorau ar gyfer y Cynulliad nesaf gyda golwg ar roi sylw i'r gorgyffwrdd posibl o ran craffu ar rai materion.²⁴ Dadleuwyd hefyd y dylid mynd i'r afael â'r canfyddiad bod trefn hierarchaidd i'r pwyllgorau, am fod rhai pwyllgorau penodol yn cael eu henwi yn y Rheolau Sefydlog ac eraill heb.²⁵

71. Mae'r Pwyllgor yn argymhell cael un dull o sefydlu pwyllgorau yn lle'r ystod o fecanweithiau a ddefnyddir, a hwnnw'n caniatáu i'r Pwyllgor Busnes gynnig strwythur sy'n gweddu orau i'r Cynulliad o dan amgylchiadau penodol, ar yr amod bod y Cynulliad yn cymeradwyo'r strwythur hwnnw mewn Cyfarfod Llawn (diwygio RhS 12 a 21).

72. Er y byddai'r cynnig hwn yn rhoi'r rhyddid i'r Cynulliad ddewis strwythur ar gyfer ei bwyllgorau drwy ddileu'r cyfeiriadau presennol at bwyllgorau penodol, byddai gofyn hefyd i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod y prif swyddogaethau a restrir yn y Rheolau Sefydlog yn cael eu cyflawni. O safbwynt ymarferol, byddai hyn yn golygu system a oedd yn sicrhau cydbwysedd cyffredinol rhwng dwyn y llywodraeth i gyfrif a chraffu ar ddeddfwriaeth yn ogystal â chyflawni swyddogaethau craidd yng nghyswllt:

- archwilio cyfrifon cyhoeddus (diwygio RhS 13);
- craffu ariannol (diwygio RhS 14);

²⁰ [SOR3 \(Cymdeithas MS\)](#), [SOR8 \(yr Athro Laura McAllister a'r Dr Diana Stirbu\)](#) a [SOR10 \(Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru\)](#) (Saesneg).

²¹ [SOR8 \(yr Athro Laura McAllister a'r Dr Diana Stirbu\)](#) (Saesneg).

²² [SOR3 \(Cymdeithas MS\)](#).

²³ [SOR17 \(y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant\)](#) a [SOR15 \(y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc\)](#).

²⁴ [SOR23 \(y Pwyllgor Cynaliadwyedd\)](#) Saesneg.

²⁵ [SOR15 \(y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc\)](#) Saesneg.

- craffu ar ddeddfwriaeth a materion cyfansoddiadol eraill, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â sybsidiaredd Ewrop (diwygio RhS 15);
- safonau ymddygiad (diwygio RhS 16); ac
- ystyried deisebau cyhoeddus (diwygio RhS 28).

73. Awgrymodd Cadeiryddion y Pwyllgorau newidiadau penodol i'r swyddogaethau craidd y mae'n rhaid i strwythur y pwyllgorau eu cyflawni.²⁶ Yn sgîl hynny, mae'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â chraffu ar gyfrifon cyhoeddus, cyllid, materion cyfansoddiadol a deddfwriaethol a deisebau cyhoeddus wedi'u diwygio. Ceir esboniad manwl o'r newidiadau hyn yn Atodiad 2.

74. O dan y Rheolau Sefydlog diwygiedig, felly, ni fyddai dim i rwystro'r Pwyllgor Busnes rhag cynnig strwythur sydd yn union yr un fath â'r trefniant presennol. Fodd bynnag—ac mae hyn yn hollbwysig—byddai'n rhydd i gynllunio'r system mewn ffordd wahanol er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau ac amgylchiadau'r dydd. Ym mhob achos, byddai'n rhaid i'r Cynulliad gymeradwyo mewn Cyfarfod Llawn y strwythur pwyllgorau a gynigiwyd gan y Pwyllgor Busnes.

75. Mae'r Pwyllgor yn argymhell dileu'r cyfeiriadau penodol at swyddogaethau'r pwyllgorau sydd yn y Rheolau Sefydlog (ac eithrio'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, a'r Pwyllgor Busnes) ac, yn lle hynny, ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod y prif swyddogaethau a restrir yn y Rheolau Sefydlog, megis craffu ar gyllidebau a deddfwriaeth, yn cael eu cyflawni wrth gynnig y strwythur pwyllgorau (diwygio RhS 13 - 20 a RhS 28).

Gweithrediad y pwyllgorau

76. Cynigir hefyd y dylid diwygio'n benodol y Rheol Sefydlog sy'n disgrifio sut mae pwyllgorau'n gweithredu, sef Rheol Sefydlog 10. Pwrpas y newidiadau hyn yw gwneud pethau'n fwy clir, adlewyrchu'r dulliau o weithio sydd wedi bwrw gwreiddiau yn y Trydydd Cynulliad a chaniatáu ar gyfer hyblygrwydd neu wella.

77. Mae'r Rheolau Sefydlog presennol yn ei gwneud yn ofyniad ffurfiol i bwyllgorau ethol eu cadeiryddion eu hunain gan sicrhau bod

²⁶ [SOR21 \(y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus\)](#), [SOR18 \(Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol\)](#), [SOR20 \(y Pwyllgor Cyllid\)](#), [SOR24 \(y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol\)](#) a [SOR19 \(y Pwyllgor Deisebau\)](#).

cydbwysedd y cadeiryddion ar draws pwyllgorau'n adlewyrchu'r grwpiau gwleidyddol y mae'r Aelodau'n perthyn iddynt. O safbwynt ymarferol, drwy gydol oes y Cynulliad Cenedlaethol, mae'r grwpiau gwleidyddol wedi sicrhau cytundeb ymlaen llawn o ran dewis cadeiryddion sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng y pleidiau ac wedi neilltuo Aelodau i bwyllgorau'n unol â hynny.

78. Er mwyn adlewyrchu'r drefn hon sydd wedi bwrw gwreiddiau, mae'r Pwyllgor yn argymhell, yn lle'r mecanwaith sy'n caniatáu i bwyllgorau ethol cadeirydd, y dylid cael mecanwaith lle bydd grwpiau'r pleidiau'n rhoi gwybod i'r Pwyllgor Busnes pwy y maent yn ei enwebu ar gyfer unrhyw gadair a neilltuwyd iddynt. Yna, byddai'r Cynulliad yn cytuno mewn Cyfarfod Llawn ar y sawl a gynigiwyd i fod yn gadeirydd ar gyfer unrhyw bwyllgor, fel sy'n wir ar gyfer aelodau pwyllgorau'n fwy cyffredinol (diwygio RhS 10.3, 10.8, 10.12A a 10.18).

79. Argymhellir hefyd y dylid newid pethau er mwyn gwneud busnes y pwyllgorau'n fwy effeithlon ac yn fwy hyblyg. Dyma rai o'r rhain:

- **gwneud darpariaeth er mwyn i bwyllgorau allu pleidleisio:**
 - **'drwy amneidio' (hynny yw heb orfod cynnal pleidlais ffurfiol drwy godi llaw) oni fydd unrhyw aelod yn gwrthwynebu (RhS 10.31A newydd);**
 - ***en bloc* (hynny yw, grwpio pleidleisiau sy'n ymwneud â chwestiynau tebyg lle y tybir bod hynny'n briodol) oni fydd unrhyw aelod yn gwrthwynebu (RhS 10.32A newydd);**
- **caniatáu mwy o hyblygrwydd i'r cadeirydd ohirio cyfarfod os nad oes cworwm (diwygio RhS 10.30).**

80. Er mwyn ei gwneud yn fwy clir bod deunydd ysgrifenedig a gyhoeddir gan bwyllgor - er enghraifft tystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad pwyllgor - yn cael ei warchod o dan y gyfraith cynhwysir Rheol Sefydlog newydd. Pan gyhoeddir ddeunydd ysgrifenedig a gyflwynwyd iddo gan y cyhoedd ar ran y pwyllgor, byddai'r Rheol Sefydlog hon yn sicrhau ei fod wedi'i warchod at ddibenion cyfraith difenwi ac nad yw'n ddarostyngedig i reol atebolrwydd caeth cyfraith dirmyg llys (RhS 10.36A newydd).

81. Mae'r Pwyllgor yn argymhell diwygio Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â gweithrediad pwyllgorau yn unol â'r newidiadau manwl yn Atodiad 2, er mwyn eu gwneud yn fwy clir, er mwyn iddynt adlewyrchu'r dulliau gweithio sydd wedi bwrw gwreiddiau yn y Trydydd Cynulliad ac er mwyn sicrhau hyblygrwydd.

Deddfwriaeth

82. Mae gweithdrefnau deddfwriaeth y Cynulliad i'w gweld yn y Rheolau Sefydlog a ganlyn: RhS 22 (Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol), RhS 23 (Mesurau), RhS 24 (Is-ddeddfwriaeth), RhS 25 (Gweithdrefn Cynulliad Arbennig) a RhS 26 (Cydsyniad mewn Perthynas â Biliau Senedd y DU).

83. Mae'r Pwyllgor yn argymhell nifer o welliannau sy'n ymwneud â phrif egwyddorion yr adolygiad, a gwelliannau eraill gyda'r bwriad o adlewyrchu'r gweithdrefnau sydd eisoes wedi bwrw gwreiddiau neu o'u gwneud yn fwy eglur. Ceir esboniad manwl o'r holl welliannau sy'n ymwneud â deddfwriaeth yn Atodiad 2.

Yr Aelod sy'n Gyfrifol

84. Mae'r diffiniad o'r "Aelod sy'n gyfrifol" neu o bwy sy'n cael bod yn Aelod o'r fath i'w gael deirgwaith mewn gwahanol rannau o'r Rheolau Sefydlog yng nghyswllt Gorchmynion arfaethedig, Gorchmynion drafft a Mesurau arfaethedig. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid cael un Rheol Sefydlog benodol i'w cwmpasu i gyd (RhS 21A newydd).

Deddfwriaeth arfaethedig Aelodau a Phwyllgorau

Cyflwyniad

85. Mae Rheol Sefydlog 23.98 yn darparu fel y gall yr Aelod sy'n gyfrifol am Orchymyn arfaethedig, a hwnnw'n llwyddo i gwblhau ei hynt ddeddfwriaethol ac yn dod yn Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wneir gan Ei Mawrhydi, gyflwyno un Mesur arfaethedig Aelod sy'n ymwneud â'r Gorchymyn hwnnw o fewn chwe mis i adeg gwneud y Gorchymyn.

86. Yn yr un modd, mae Rheol Sefydlog 23.105 yn rhoi chwe mis i Aelod sydd wedi'i ddethol drwy'r balot ac sydd wedi sicrhau cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Mesur arfaethedig Aelod.

87. Mae'r Pwyllgor yn argymhell estyn y cyfnodau a ganiateir ar gyfer cyflwyno Mesur arfaethedig Aelod yn Rheolau Sefydlog 23.98 a 23.105 o chwe mis i naw mis er mwyn i'r Aelod gael rhagor o amser i baratoi.

Trosglwyddo

88. Ar hyn o bryd, nid yw'r Rheolau Sefydlog yn caniatáu i'r Llywodraeth ysgwyddo'r cyfrifoldeb am deddfwriaeth arfaethedig Pwyllgor neu Aelod. Teimlai'r Pwyllgor y gallasai darpariaeth o'r fath fod o gymorth yng nghyswllt rhywfaint o'r deddfwriaeth a gynigiwyd gan Aelodau yn y Trydydd Cynulliad.

89. Mae'r Pwyllgor yn argymhell cynnwys darpariaeth sy'n galluogi trosglwyddo deddfwriaeth arfaethedig Aelod a Phwyllgor i Lywodraeth Cymru ar gais yr Aelod neu'r pwyllgor (RhS 21.4A(iii) newydd, diwygio RhS 21A.9, 21A.10, 21A.16, a 21A.17).

90. O ran deddfwriaeth arfaethedig Pwyllgor, byddai gofyn cael cytundeb unfrydol y pwyllgor er mwyn caniatáu i'r Llywodraeth ysgwyddo'r cyfrifoldeb amdani.

Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol

91. Mae'r Pwyllgor yn cynnig nifer o welliannau i Reol Sefydlog 22, sy'n ymwneud â Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol. **Yn gyntaf, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid diwygio Rheol Sefydlog 22.33 er mwyn sicrhau bod yr Aelod sy'n gyfrifol, wrth osod y Memorandwm Esboniadol gyda Gorchymyn drafft, yn ymateb i'r holl argymhellion a wnaed gan y pwyllgorau perthnasol a fu'n craffu ar y Gorchymyn arfaethedig.**

92. Roedd ymateb Cadeiryddion y Pwyllgorau Deddfwriaeth a'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at y bwlch canfyddedig ym mhrosesau craffu'r Cynulliad yng nghyswllt Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol, gan awgrymu y dylai fod amser ar gael rhwng gosod Gorchymyn drafft a chynnal dadl mewn Cyfarfod Llawn.

93. Mae'r Pwyllgor yn argymhell cyflwyno Rheol Sefydlog newydd i ganiatáu pythefnos rhwng gosod Gorchymyn drafft a dadl mewn Cyfarfod Llawn, oni fydd y Pwyllgor Busnes yn cytuno'n wahanol drwy ymgynghori â'r pwyllgor sy'n gyfrifol (RhS 22.34A newydd).

94. Byddai'r Rheol Sefydlog newydd yn rhoi cyfle i'r pwyllgor ystyried unrhyw wahaniaethau rhwng Gorchymyn arfaethedig a Gorchymyn drafft er mwyn llywio penderfyniad Cyfarfod Llawn y Cynulliad o ran cymeradwyo'r Gorchymyn drafft.

Mesurau'r Cynulliad

Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â Mesur arfaethedig

95. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, cododd y Pwyllgor Cyllid bryderon ynghylch y diffyg gwybodaeth am 'gyfanswm costau' Mesurau arfaethedig, gan ddweud bod sawl Memorandwm Esboniadol wedi rhestru'r costau ychwanegol yn unig, sef y costau ar ben yr hyn sy'n cael ei wario ar gynlluniau polisi neu wasanaethau sy'n bodoli eisoes.²⁷ Roedd Cadeiryddion Pwyllgorau Deddfwriaeth yn poeni am hyn hefyd.²⁸

96. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid gwneud y gofyniad sy'n ymwneud â'r amcangyfrif o'r costau y mae'n rhaid ei gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol gyda Mesur arfaethedig yn eglurach ac yn gryfach (diwygio RhS 23.18(vi)(a)).

Craffu'n derfynol ar Fesurau

97. Ar hyn o bryd, ar ôl gwaredu holl welliannau Cyfnod 3, yr unig ffordd y gellir ystyried gwelliannau pellach yw os bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cynnig rhagor o drafodion Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 23.52. Yn y cyswllt hwn, yr unig welliannau y gellir eu hystyried yw newidiadau technegol gan yr Aelod sy'n gyfrifol neu newidiadau sy'n galluogi'r Aelod hwnnw i gyflawni ymrwymadau a wnaed yn nhrefodion cynharach Cyfnod 3.

98. Fel arall, caiff yr Aelod sy'n gyfrifol gynnig ar unwaith bod y Mesur arfaethedig yn cael ei dderbyn (Cyfnod 4: Cyfnod Terfynol). Mae'r Rheolau Sefydlog yn caniatáu ystyried y cynnig Cyfnod 4 hwn ar ddiwrnod gwahanol os na fydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn ei gynnig ar ddiwedd trafodion Cyfnod 3.

99. Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys ymatebion Cymdeithas MS Cymru²⁹ a Chanolfan Llywodraethiant Cymru³⁰ yn awgrymu y dylid ystyried rhoi rhagor o amser i'r Aelodau ystyried effaith trafodion Cyfnod 3 cyn symud ymlaen i ystyried a ddylid cymeradwyo'r Mesur arfaethedig yng Nghyfnod 4.

100. Nid yw'r Rheolau Sefydlog yn caniatáu i hyn ddigwydd, fel yr esbonnir uchod. Serch hynny, nid oedd Cadeiryddion y Pwyllgorau

²⁷ [SOR20 \(y Pwyllgor Cyllid\)](#) (Saesneg).

²⁸ [Nodyn am gyfarfod â Chadeiryddion y Pwyllgorau Deddfwriaeth](#) (Saesneg).

²⁹ [SOR3 \(Cymdeithas MS\)](#) (Saesneg).

³⁰ [SOR5 \(Cymdeithas Llywodraethiant Cymru\)](#) (Saesneg).

Deddfwriaeth³¹ o blaid newid y weithdrefn i wneud hyn yn ofyniad. Serch hynny, roedd y Cadeiryddion yn cytuno y dylid ystyried galluogi cyfnod diwygio pellach dewisol ar ddiwedd Cyfnod 3.

101. Felly, mae'r Pwyllgor yn argymhell sefydlu cyfnod diwygio dewisol newydd ar ôl gwaredu'r holl welliannau yng Nghyfnod 3, i'w alw'n "y Cyfnod Adrodd" (RhS 23.57A a 23.57B newydd).

102. Ni fwriedir i'r Cyfnod Adrodd ddisodli trafodion pellach Cyfnod 3. Yn hytrach, ei fwriad yw:

- rhoi mwy o hyblygrwydd i'r broses graffu er mwyn i'r Cynulliad allu dychwelyd at faterion penodol os yw'n dymuno; a
- cryfhau'r broses graffu drwy sicrhau, os oes angen, fod y Cynulliad yn gallu manteisio ar gyfnod diwygio ychwanegol, yn enwedig os cytunwyd ar newidiadau sylweddol neu bwysig yn ystod Cyfnod 3.

103. Ni fyddai'r Cyfnod Adrodd ychwanegol hwn yn digwydd fel mater o drefn, ac ni fyddai'n digwydd oni bai y câi gytundeb y Cynulliad. Byddai angen i'r Aelod sy'n gyfrifol gynnig bod y Cynulliad yn ystyried gwelliannau yn y Cyfnod Adrodd drwy gyflwyno cynnig heb rybudd mewn Cyfarfod Llawn. Pe bai'r Cynulliad yn derbyn y cynnig, byddai'r Cyfnod Adrodd yn dechrau a byddai gweithdrefnau arferol Cyfnod 3, yng nghyswllt cyflwyno gwelliannau, yn berthnasol wedi hynny (Rheolau Sefydlog 23.42 i 23.57).

Cydsyniad yng nghyswllt Biliau Senedd y DU

104. Pan fydd Senedd y DU am ddeddfu ar bwnc sydd eisoes wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol, yn ôl y confensiwn, mae gofyn iddi gael cydsyniad y Cynulliad cyn pasio'r ddeddfwriaeth dan sylw. Rhoddir cydsyniad o'r fath drwy Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM). Yn unol â Rheol Sefydlog 26, gosodir memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ochr yn ochr ag LCM sy'n rhoi gwybodaeth am y Bil Senedd y DU perthnasol. Rhaid i femorandwm cydsyniad deddfwriaethol:

- grynhoi amcanion polisi'r Bil Senedd y DU,
- dweud i ba raddau y byddai'r Bil yn darparu ar gyfer unrhyw bwrpas o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad³² neu'n

³¹ [Nodyn am y gyfarfod â Chadeiryddion y Pwyllgorau Deddfwriaeth](#) (Saesneg).

cael effaith negyddol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad;

- esbonio a ystyrir ei bod yn briodol gwneud y ddarpariaeth honno a'i gwneud drwy gyfrwng y Bil Senedd y DU (RhS 26.3).

Craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol

105. Codwyd pryder yn yr ymgynghoriad cyhoeddus³³ ac yn ymateb y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol³⁴ i'r adolygiad am y diffyg cyfle i bob golwg i graffu'n briodol ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol cyn bod y cynnig i gydsynio'n cael ei ystyried a chyn i neb bleidleisio arno mewn Cyfarfod Llawn.

106. Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, cynigir diwygio Rheol Sefydlog 26 i ddarparu mecanwaith sy'n caniatáu i'r Pwyllgor Busnes, lle bo hynny'n briodol, gyfeirio unrhyw femorandwm cydsyniad deddfwriaethol at bwyllgor perthnasol i'w ystyried, cyn i'r Cynulliad ei drafod.

107. Mae'r Pwyllgor yn argymhell diwygio'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â memoranda cydsyniad deddfwriaethol er mwyn caniatáu gwell craffu ar ddarpariaethau perthnasol ym Miliâu Senedd y Deyrnas Unedig (RhS 26.3A, 26.3B a 26.6 newydd).

Hysbysu yng nghyswllt Biliau Senedd y DU

108. Yn ei ymateb i'r adolygiad, cyfeiriodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol at fwch canfyddedig yn y craffu ar Filiau Senedd y DU sy'n rhoi pwerau i'r Cynulliad.³⁵ Roedd ymateb y Pwyllgor yn gofyn hefyd am ddiwygio'r Rheolau Sefydlog er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu pwyllgorau pan fydd gan Filiau Senedd y DU oblygiadau ar gyfer pwerau Gweinidogion Cymru neu'r Cynulliad.³⁶

109. Yn yr ymateb a gafwyd drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus, ailadroddwyd y pryderon a godwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol gan ddadlau mai ychydig o le sydd i graffu ar bwerau fframwaith (h.y. pwerau gwneud Mesurau) a gynhwysir yn

³² Ar wahân i ddarpariaethau achlysurol, dilyniannol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau ynghylch arbedion sy'n ymwneud â materion nad ydynt yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

³³ [SOR5 \(Canolfan Llywodriaethiant Cymru\)](#), [SOR7 \(Materion Cyhoeddus Cymru\)](#), [SOR10 \(Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru\)](#) a [SOR12 \(Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru\)](#) (Saesneg).

³⁴ [SOR18 \(y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol\)](#).

³⁵ Ibid.

³⁶ Ibid.

neddfwriaeth San Steffan ar hyn o bryd.³⁷ Roedd nifer sylweddol o'r rhai a gyflwynodd dystiolaeth i'r adolygiad yn galw ar y Pwyllgor Busnes i ystyried darparu mecanweithiau i'r Cynulliad allu craffu'n well ar Filiau'r DU a oedd naill ai'n rhoi pwerau deddfu i'r Cynulliad neu'n rhoi pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru.³⁸

110. Er mwyn mynd i'r afael â'r pwyntiau a wnaed yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cyflwynir Rheol Sefydlog 26A newydd i adeiladu ar sail darpariaeth Rheol Sefydlog 26. Byddai'r Rheol Sefydlog newydd hon yn cynnig mecanwaith systematig i'r Cynulliad gael ei hysbysu ynghylch Biliau eraill Senedd y DU sy'n effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru neu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

111. Byddai gofyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn rhoi gwybod am Filiau Senedd y DU sy'n cynnwys darpariaethau (ac eithrio'r rheini a elwir yn "ddarpariaeth berthnasol" o dan Reol Sefydlog 26.1) sydd naill ai:

- yn effeithio'n sylweddol ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru neu swyddogaethau'r Cwnsler Cyffredinol; neu
- yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad (byddai hyn felly'n bennaf yn ymwneud â darpariaeth ym Miliau Senedd y DU sy'n trosglwyddo pwerau fframwaith i'r Cynulliad).

112. Cyhoeddir y datganiad ysgrifenedig er gwybodaeth yn unig, ac nid yw'n sail ar gyfer penderfynu ar gynnig gan y Cynulliad. Ni fyddai datganiadau o'r fath yn cael eu cyfeirio gan y Pwyllgor Busnes at bwyllgorau i'w hystyried. Serch hynny, gallai unrhyw bwyllgor ddewis ystyried y datganiad pe bai'n dewis gwneud hynny.

113. Mae'r Pwyllgor yn argymhell cynnwys Rheol Sefydlog newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol hysbysu ynghylch Biliau Senedd y DU sy'n cynnwys darpariaethau (ac eithrio'r rheini y cyfeirir atynt yn Rheol Sefydlog 26) sy'n effeithio'n sylweddol ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru (gan gynnwys y Prif Weinidog) neu'r Cwnsler Cyffredinol, neu sy'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad (RHS 26A newydd).

³⁷ [SOR12 \(Pwyllgor Llywodraeth Leol Cymru\)](#), [SOR10 \(Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru\)](#), [SOR7 \(Materion Cyhoeddus Cymru\)](#) a [SOR5 \(Canolfan Llywodraethiant Cymru\)](#) (Saesneg).

³⁸ Ibid.

Mecanwaith sybsidiaredd Ewrop

114. Mae erthygl 6 Protocol Cytuniad Lisbon ar gymhwyso egwyddorion sybsidiaredd a chymesuredd yn caniatáu i unrhyw Senedd genedlaethol, o fewn wyth wythnos i ddyddiad cyhoeddi Deddf deddfwriaethol ddrafft, anfon barn resymedig at sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd yn dweud pam mae o'r farn nad yw'r drafft dan sylw yn cydymffurfio ag egwyddor sybsidiaredd. Yn ôl yr erthygl hon hefyd, gwaith pob Senedd genedlaethol, lle bo hynny'n briodol, yw ymgynghori â seneddau rhanbarthol a chanddynt bwerau deddfu.

115. Yn ymateb y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol i'r adolygiad, dadleuwyd y dylid cael darpariaeth yn y Rheolau Sefydlog sy'n cydnabod rôl y Cynulliad o ran ystyried cymhwyso egwyddor sybsidiaredd fel y'i ceir ym Mhrotocol Cytuniad Lisbon.³⁹ Roedd ymateb y Pwyllgor hefyd yn cynnwys cais am fecanwaith ffurfiol fel y gallai'r Pwyllgor gyflwyno'i farn gerbron Senedd y Deyrnas Unedig os na fydd deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd yn cydymffurfio ag egwyddorion sybsidiaredd.

116. Gan ymateb i gais y Pwyllgor, cyflwynir Rheolau Sefydlog 15.9, 15.10 a 15.11 newydd. Fe'u drafftir mewn termau cyffredinol er mwyn i Gynulliadau'r dyfodol allu cytuno ar fanylion y gweithdrefnau, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau ar y pryd. Byddai'r Rheolau Sefydlog newydd yn caniatáu i'r pwyllgor sy'n gyfrifol gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i Senedd y Deyrnas Unedig ar ran y Cynulliad er mwyn cynnwys y rheini mewn barn resymedig i awdurdodau perthnasol yr Undeb Ewropeaidd, yn unol â'r protocol. Maent hefyd yn cynnwys opsiwn lle y gallai pwyllgor sy'n gyfrifol ddirprwyo'r swyddogaethau sy'n ymwneud â chyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar ran y Cynulliad i gadeirydd y pwyllgor hwnnw yn ystod toriad.

117. Mae'r Pwyllgor yn argymhell cynnwys mecanwaith ffurfiol yn y Rheolau Sefydlog i egluro rôl y Cynulliad o ran ystyried cymhwyso egwyddor sybsidiaredd fel y'i ceir ym Mhrotocol Cytuniad Lisbon ar gymhwyso egwyddorion sybsidiaredd a chymesuredd (RhS 15.9 - 15.11 newydd).

³⁹ [SOR24 \(y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol\)](#).

Cyllid

Proses flynyddol y gyllideb

118. Mae Rheol Sefydlog 27 yn rhestru'r gweithdrefnau, gan gynnwys y dyddiadau a'r amserau, ar gyfer cytuno ar gyllidebau'r Llywodraeth, Comisiwn y Cynulliad, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

119. Sawl tro yn ystod y Trydydd Cynulliad, bu angen atal Rheolau Sefydlog neu gytuno ar Reol Sefydlog dros dro er mwyn addasu'r amseru. Mae'r Rheol Sefydlog bresennol yn gosod cyfyngiadau penodol mewn blwyddyn pan gynhelir Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.

120. Rhoddodd y Pwyllgor Cyllid sylw i hyn yn ei ymateb⁴⁰ i'r Pwyllgor Busnes. Roedd yn argymhell y dylai'r Rheolau Sefydlog restru'r egwyddorion sy'n berthnasol i graffu ar yr amrywiol gyllidebau a'r amser a ganiateir. Fodd bynnag, gallai'r Pwyllgor Busnes bennu'r dyddiadau penodol yng ngoleuni'r amgylchiadau sy'n berthnasol ar y pryd.

121. Yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Cyllid, casgliad y Pwyllgor oedd y dylai'r Pwyllgor Busnes gyhoeddi amserlen bob blwyddyn ar gyfer ystyried cyllideb ddrafft y Llywodraeth (RhS 27.0 - 27.6 newydd neu ddiwygiedig).

122. Er mwyn cyflawni hyn, byddai pob dyddiad penodol ar gyfer gosod cyllideb ddrafft y Llywodraeth ac ar gyfer cyflwyno cynnig cyllideb blynyddol yn cael eu dileu o'r Rheolau Sefydlog. Yn hytrach, byddai'r Pwyllgor Busnes yn cyhoeddi amserlen cyn toriad yr haf, gan ymgynghori â'r Llywodraeth ac â'r pwyllgor sy'n gyfrifol am gyflawni'r swyddogaeth craffu ariannol.

123. Er mai'r Pwyllgor Busnes a fyddai'n cyhoeddi'r amserlen, y Llywodraeth a fyddai'n gyfrifol am bennu'r dyddiadau ar gyfer gosod ei chyllideb ddrafft a chyflwyno'r cynnig cyllideb blynyddol (RhS 27.0B). Yna, byddai'r Pwyllgor Busnes, o fewn yr amserlen hon, yn pennu'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y gyllideb ddrafft i'r Llywodraeth gan y pwyllgor sy'n gyfrifol.

124. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Rheolau Sefydlog yn gwarantu cyfnod o 5 wythnos o leiaf i'r pwyllgor sy'n gyfrifol

⁴⁰ [SOR20 \(y Pwyllgor Cyllid\)](#) (Saesneg).

gyflwyno adroddiad am y gyllideb ddrafft i Lywodraeth Cymru (RhS 27.0E newydd).

Cyllideb Comisiwn y Cynulliad

125. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai fod mwy o hyblygrwydd o ran amseru cyllideb Comisiwn y Cynulliad. Byddai hyn yn cynnwys diwygio'r dyddiad cau ar gyfer gosod cyllideb ddrafft y Comisiwn a hefyd yn rhoi wythnos ychwanegol ar gyfer cytuno ar y gyllideb derfynol. Byddai hefyd yn caniatáu i'r Comisiwn benderfynu pryd i osod ei gyllideb derfynol o fewn y dyddiad cau (diwygio RhS 27.7 a 27.9).

126. Fel na fyddai angen cyflwyno Rheol Sefydlog dros dro mewn blwyddyn pan gynhelir Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig neu gan Lywodraeth Cymru, byddai Rheol Sefydlog newydd yn caniatáu i'r Comisiwn gynnig newidiadau i amserlen ei gyllideb, ar yr amod bod y Pwyllgor Busnes yn cytuno (RhS 27.12A newydd).

Amcangyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol a'r Ombwdsmon

127. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno amcangyfrifon i'r Cynulliad gan yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'u cynnwys mewn Deddfau Seneddol ac felly nad oes modd eu diwygio drwy'r Rheolau Sefydlog.

Cynigion cyllideb atodol

128. Mae'r Pwyllgor Busnes hefyd yn argymhell gofyniad newydd ar gyfer unrhyw gynigion cyllideb atodol sy'n amrywio cyllideb y Comisiwn, yr Archwilydd Cyffredinol neu'r Ombwdsmon. Byddai'n rhaid i'r Comisiwn ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru osod neu gyflwyno memoranda esboniadol i'r pwyllgor sy'n gyfrifol yn esbonio pam maent yn gwneud cais am gyllideb atodol, i oleuo adroddiad y pwyllgor sy'n gyfrifol (RhS 27.22A newydd, diwygio RhS 27.26). Yn yr un modd, byddai'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno memorandwm esboniadol i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (diwygio RhS 27.25).

129. Mae'r Rheol Sefydlog ddiwygiedig am weithdrefnau cyllid ac esboniad llawn o'r holl newidiadau a gynigir i'w gweld yn Atodiad 2.

Adroddiadau ar y Trafodion

130. Mae Rheol Sefydlog 30 yn rhestru'r gofynion ar gyfer cyhoeddi adroddiadau ar drafodion y Cynulliad. Ym mis Mai 2010, yn yr Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Dwyieithog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cafwyd yr argymhellion a ganlyn ynghylch sut yr adroddir ar drafodion y Cynulliad:

"Rydym yn argymhell bod y Cofnod testun gair am air o drafodion ond yn cael ei gyhoeddi yn yr iaith / ieithoedd gwreiddiol a draddodwyd, ynghyd â chofnod o'r cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg, fel y'i traddodwyd yn y Siambr ar y pryd. (paragraff 68)"⁴¹

131. Cytunodd Comisiwn y Cynulliad ar yr argymhellion hyn ym mis Mai 2010 ac maent wedi'u rhoi ar waith ers mis Medi 2010.

132. Mae'r Pwyllgor yn argymhell diwygio Rheol Sefydlog 30 sy'n ymwneud â'r trefniadau ar gyfer cofnodi penderfyniadau (cofnodion) ac adrodd ar gyfarfodydd cyhoeddus yn unol ag argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Dwyieithog, gan ddarparu y dylid dilyn yr un drefn wrth gofnodi ac adrodd ar drafodion pwyllgorau a thrafodion Cyfarfodydd Llawn (diwygio RhS 30).

133. Dylai'r Rheol Sefydlog ddiwygiedig adlewyrchu'n fwy clòs hefyd ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n ei gwneud yn glir mai Comisiwn y Cynulliad sy'n gyfrifol am bennu'r trefniadau ar gyfer cofnodi, adrodd a chyhoeddi trafodion yn unol â'r Ddeddf.

⁴¹ [Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Dwyieithog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mai 2010, t.7.](#)

Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill

134. Mae'r gofynion sy'n berthnasol i gofrestru a datgan buddiannau ariannol a buddiannau eraill yr Aelodau i'w gweld yn Rheol Sefydlog 31. Rhestrir y gofynion sy'n berthnasol i gofnodi sefyllfaoedd lle bydd Aelodau'n cyflogi aelodau o'u teulu gyda chymorth cronfeydd y Comisiwn yn Rheol Sefydlog 31A; nodir y ddyletswydd i gofnodi eu haelodaeth o gymdeithasau yn Rheol Sefydlog 32. Ni chynigir dim newidiadau o sylwedd i'r Rheolau Sefydlog hyn ar hyn o bryd.

Cofnodi'r amser y mae'r Aelodau'n ei dreulio'n gwneud gweithgarwch cofrestradwy

135. Ym mis Gorffennaf 2009, adolygwyd y trefniadau ar gyfer rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad gan y Panel Adolygu Annibynnol ar Gyflogau a Threuliau ACau o dan gadeiryddiaeth Syr Roger Jones.⁴² Dywedodd argymhelliad 15 yn adroddiad y panel adolygu annibynnol:

"Yn ogystal â chofnodi gwybodaeth am gyflogaeth arall ar y Gofrestr Buddiannau, dylai fod yn ofynnol i Aelodau'r Cynulliad nodi manylion yr amser y maent yn ei dreulio yn y gyflogaeth ychwanegol hon."⁴³

136. Derbyniwyd argymhellion y Panel yn llawn gan Gomisiwn y Cynulliad ar 7 Gorffennaf 2009. Wrth fwrw ymlaen â'r argymhellion, gofynnodd Comisiwn y Cynulliad i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ystyried sut orau y gellid rhoi'r argymhelliad ar waith. Ystyriodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yr argymhelliad, cyflwynodd ei farn i'r Pwyllgor Busnes ynglŷn â sut orau i gyflawni hyn, gan ofyn iddo gael ei ystyried fel rhan o'r Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog.⁴⁴

137. Yn unol â barn y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, cynigir y dylid rhoi argymhelliad 15 ar waith drwy Reol Sefydlog newydd annibynnol. Byddai Rheol Sefydlog 31B newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau roi amcan o'r amser a dreuliwyd yn gwneud gweithgarwch cofrestradwy o fewn bandiau amser eang. Enghreifftiau o weithgareddau y mae gofyn eu cofrestru fyddai gwaith cyfarwyddwr sy'n derbyn tâl, neu unrhyw gyflogaeth, swydd, crefft, proffesiwn neu alwedigaeth y mae gan yr Aelod unrhyw fuddiant ariannol ynddynt.

⁴² Panel Adolygu Annibynnol, [Yn Gywir i Gymru](#), Gorffennaf 2009, Argymhelliad 15, t.62.

⁴³ Ibid.

⁴⁴ Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau at y Pwyllgor Busnes, [Argymhelliad 15 Yn Gywir i Gymru](#), 18 Mehefin 2010.

138. Byddai'r Rheol Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau roi gwybod tua faint yr oeddent yn ei dreulio'n gwneud gweithgarwch y mae gofyn ei gofrestru ar yr un pryd ag y maent yn cofrestru eu buddiannau'n unol â Rheol Sefydlog 31.2. Byddai cofnod o'r hysbysiadau hyn yn cael ei gyhoeddi a byddai'n ddyletswydd barhaus ar yr Aelodau i sicrhau bod y cofnod yn cynnwys yr wybodaeth gywir ynghylch y gweithgarwch cofrestradwy.

139. Mae'r Pwyllgor yn argymhell cyflwyno Rheol Sefydlog newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau roi gwybod tua faint o amser y byddant yn ei dreulio'n gwneud gweithgarwch cofrestradwy, yn unol ag argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol ac yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (Rheol Sefydlog newydd 31B).

Y Comisiynydd Safonau

140. Nid yw Rheol Sefydlog 33, sy'n ymwneud â'r Comisiynydd Safonau, yn berthnasol bellach yn sgîl cymeradwyo Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009.⁴⁵ Gan fod y Mesur yn disgrifio swyddogaethau statudol y rôl, nid oes angen Rheol Sefydlog 33 ac felly fe'i dilëir. Mae Rheol Sefydlog 16 fel y'i diwygiwyd yn ei gwneud yn ddyletswydd i sicrhau bod safonau ymddygiad yr Aelodau'n dal i fod o fewn cylch gwaith un o bwyllgorau'r Cynulliad.

141. Mae'r Pwyllgor yn argymhell dileu Rheol Sefydlog 33 sy'n ymwneud â'r Comisiynydd Safonau, gan fod pasio Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei disodli.

⁴⁵ [Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009](#).

Canllawiau a dogfennau cefndir

142. Wrth i'r Pwyllgor drafod adolygu'r Rheolau Sefydlog, dywedodd y Rheolwyr Busnes eu bod o'r farn y dylid darparu rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae'r Rheolau Sefydlog yn cael eu rhoi ar waith. Gallai gwybodaeth o'r fath amrywio o ganllawiau manwl ynghylch Rheolau Sefydlog penodol⁴⁶ i ganllawiau mwy cynhwysfawr sy'n esbonio'n gyffredinol sut mae'r Rheolau Sefydlog yn gweithio, sut maent wedi cael eu dehongli a sut mae'r Aelodau'n gallu eu defnyddio i gynrychioli eu hetholwyr, i wneud cyfreithiau ac i ddwyn y llywodraeth i gyfrif.⁴⁷

143. Yn sgîl yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus⁴⁸ a'r trafodaethau yn nigwyddiad y Pierhead hefyd, awgrymwyd mai'r consensws cyffredinol oedd bod angen gwybodaeth well i esbonio'r hyn y mae'r Cynulliad yn ei wneud a sut y gall pobl ymgysylltu ag ef.⁴⁹

144. Bydd argymhelliad y Pwyllgor i gyflwyno mecanwaith symlach i'r Llywydd roi cyfarwyddyd i Aelodau, drwy ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, ynghylch sut y cynhelir busnes y Cynulliad o gymorth yn hyn o beth.

145. Mae'r Pwyllgor y argymell mai un o dasgau cyntaf Llywydd a Phwyllgor Busnes y Cynulliad ddylai fod cyhoeddi canllawiau ategol i'r Aelodau, i'w staff ac i'r cyhoedd er mwyn iddynt ddeall ein prosesau yn well ac er mwyn esbonio sut y gellir defnyddio'r arfau y maent yn eu cynnig i wasanaethu pobl Cymru.

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, tudalennau 17, 19 a 20, 7 Rhagfyr 2010.

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, t.15, 1 Chwefror 2011.

⁴⁸ [SOR10 \(Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru\)](#) (Saesneg).

⁴⁹ [Adolygiad o Reolau Sefydlog: Nodyn am y digwyddiad yn y Pierhead \(Gorffennaf 2010\)](#)

Goblygiadau'r Refferendwm o ran pwerau deddfu'r Cynulliad

146. Ers i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf") ddod i rym ar ddechrau'r Trydydd Cynulliad, mae'r Cynulliad wedi gallu llunio cyfreithiau i Gymru mewn ugain maes a elwir yn feysydd polisi. Roedd modd i bob un o'r meysydd gael eu his-rannu yn feysydd llai, a alwyd yn faterion. Cyn i'r Cynulliad allu llunio cyfraith yn unrhyw un o'r 20 maes, roedd yn rhaid bod Senedd y DU yn San Steffan wedi cytuno iddo allu gwneud hynny mewn perthynas â'r mater perthnasol.

147. Roedd y Ddeddf hefyd yn cynnwys model amgen o ran pwerau deddfu'r Cynulliad, a deuai'r model hwnnw i rym dim ond pe bai pobl Cymru yn cytuno i hynny mewn refferendwm.

148. Cynhaliwyd y refferendwm ar 3 Mawrth 2011, a gofynnodd a oedd pobl Cymru yn meddwl y dylai San Steffan bellach awdurdodi'r Cynulliad i lunio cyfreithiau ar draws pob un o'r 20 maes polisi, yn hytrach na'r drefn bresennol o orfod gofyn am bob pŵer, neu eu cael fesul dipyn.

149. Canlyniad cadarnhaol oedd i'r refferendwm, ac felly caiff Gweinidogion Cymru weithredu'r model amgen drwy wneud Gorchymyn i ddod â rhan berthnasol Deddf 2006 i rym (cyfeirir ati fel darpariaethau Deddfau'r Cynulliad, sydd i'w cael yn Rhan 4 y Ddeddf). Felly, ni ddaw'r pwerau hynny i rym tan ar ôl etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2011.

150. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd angen adolygu'r Rheolau Sefydlog er mwyn cyfleu'r newidiadau a ddaw yn sgîl Rhan 4 y Ddeddf (y darpariaethau hynny sy'n ymwneud â deddfwriaeth a Mesurau'r Cynulliad yn enwedig).

151. Mae'r Pwyllgor yn cynnig y dylid cyflwyno unrhyw ddiwygiadau sy'n angenrheidiol yn sgîl cychwyn Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i'r Pedwerydd Cynulliad i'w hystyried a'u cytuno, a hynny wedi etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2011.

152. Yn ei hanfod, ni ragwelir y bydd y weithdrefn ar gyfer craffu ar Filiau o dan Ran 4 yn wahanol i honno ar gyfer craffu ar Fesurau o dan Ran 3. Newidiadau i'r derminoleg a ddefnyddir fydd mwyafrif y diwygiadau, felly.

153. Fodd bynnag, er mwyn i Reolau Sefydlog y Cynulliad allu darparu ar gyfer y pwerau a geir yn Rhan 4 y Ddeddf yn syth, cynhwyswyd diwygiad dros dro i'r adran sy'n ymwneud â "Dehongli". Mae'r diwygiad yn darparu y dylid dehongli unrhyw gyfeiriadau at "Mesurau" a "Mesurau arfaethedig" fel pe baent yn cynnwys cyfeiriadau at "Deddfau'r Cynulliad" ac at "Biliau ar gyfer Deddfau" yn eu trefn, a chyfeiriadau at Gymeradwyaeth Frenhinol (yn y Cyfrin Gyngor) fel cyfeiriadau at Gydsyniad Brenhinol, a hynny ar ôl i Ran 4 ddod i rym ond cyn i'r Rheolau Sefydlog gael eu diwygio yn ôl yr angen.

154. Cyfeirir at bob math o "Biliau", boed yn Filiau Cynulliad neu'n Filiau Senedd y DU ('Mesurau seneddol' yn flaenorol), fel "Biliau" drwy gydol y Rheolau Sefydlog Cymraeg.

Amserlen Cyfarfodydd Cyhoeddus

Dyddiad / Amser	Dolen i'r Trawsgrifiadau
2 Tachwedd 2010 9.00 - 10.00am	Trawsgrifiad, 2 Tach
9 Tachwedd 2010 9.00 - 10.00am	Trawsgrifiad, 9 Tach
16 Tachwedd 2010 9.00 - 10.00am	Trawsgrifiad, 16 Tach
23 Tachwedd 2010 9.00 - 10.00am	Trawsgrifiad, 23 Tach
7 Rhagfyr 2010 8.45 - 10.30am	Trawsgrifiad, 7 Rhag
25 Ionawr 2011 8.45 - 10.00am	Trawsgrifiad, 25 Ion
1 Chwefror 2011 8.45 - 9.15am	Trawsgrifiad, 1 Chwe

Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

155. Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl dystiolaeth ysgrifenedig i'w gweld yn llawn ar dudalennau gwe'r Pwyllgor Busnes yn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-bc-home/bc-review_of_standing_order_consultation_responses.htm.

156. Mae cofnod o'r digwyddiad a gynhaliwyd yn y Pierhead i drafod adolygu'r Rheolau Sefydlog gyda rhanddeiliaid allanol i'w weld yma:

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/business-pierhead-discussion.htm>

Enw/Sefydliad	Cyfeirnod
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	SOR 1
G Morgan	SOR 2
Cymdeithas Sglerosis Ymledol Cymru	SOR 3
Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru (ATL Cymru)	SOR 4
Canolfan Llywodraethiant Cymru	SOR 5
RSPB Cymru	SOR 6
Materion Cyhoeddus Cymru (PAC)	SOR 7
Yr Athro Laura McAllister a'r Dr Diana Stirbu	SOR 8
Nick Ramsay, AC	SOR 9
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)	SOR 10
Cymdeithas Hansard	SOR 11
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)	SOR 12, Canllawiau Pen-y-bont ar Ogwr, Canllawiau Caerffili

Coleg Nyrzio Brenhinol Cymru	SOR 13
Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru	SOR 14
Helen Mary Jones Ac, Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc	SOR 15
Ann Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal	SOR 16
Sandy Mewies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant	SOR 17
Dai Lloyd AC, Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol	SOR 18
Christine Chapman AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau	SOR 19 , Tystiolaeth Ychwanegol
Angela Burns, AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid	SOR 20
Jonathan Morgan AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus	SOR 21 , Tystiolaeth Ychwanegol
Gareth Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Dysgu	SOR 22
Kirsty Williams AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd	SOR 23
Y Gwir Anrh Rhodri Morgan AC, Cadeirydd y Pwyllgor Ewropeaidd a Materion Allanol	SOR 24
Nodyn o'r trafodaethau gyda Chadeiryddion y Pwyllgorau	BC(3)33-10- Papur 4 Atodiad C

Atodiad 1 - Rhestr o Ddogfennau Atodol

Rhestrir yr holl bapurau a ystyriwyd gan y Pwyllgor Busnes, y dogfennau cefndir a chofnodion penderfyniadau'r Pwyllgor isod, a'u trefnu fel a ganlyn:

- Papurau Cefndir – gan gynnwys y prif newidiadau a gynnigir a'r dystiolaeth sy'n gefn iddynt;
- Atodiad A yn olrhain yr holl newidiadau ac yn rhoi esboniad manwl am bob gwelliant;
- Atodiad B - yma, ceir fersiwn lân o'r Rheolau Sefydlog perthnasol wedi'u diwygio;
- Cofnodion Cyhoeddus - yn cofnodi penderfyniadau'r Pwyllgor Busnes (gellir gweld trawsgrifiadau pob cyfarfod cyhoeddus hefyd yn y 'Rhestr o'r Cyfarfodydd Cyhoeddus' ar ddiwedd yr adroddiad).

	Papur Cefndir	Atodiad A: Tabl o'r Rheolau Sefydlog a'r newidiadau wedi'u marcio	Atodiad B: Fersiwn lân o'r Rheolau Sefydlog	Cofnodion Cyhoeddus
1. Swyddi'r Cynulliad	BC(3)31-10: Papur 1 BC(3)33-10: Papur 1	BC(3)31-10: P1, Atodiad A BC(3)33-10: P1, Atodiad A	BC(3)31-10: P1, Atodiad B BC(3)33-10: P1, Atodiad B	BC(3)31-10: Cofnodion BC(3)33-10: Cofnodion
2. Penodiadau	BC(3)31-10: Papur 1 BC(3)33-10: Papur 1	BC(3)31-10: P1, Atodiad A BC(3)33-10: P1, Atodiad A	BC(3)31-10: P1, Atodiad B BC(3)33-10: P1, Atodiad B	BC(3)31-10: Cofnodion BC(3)33-10: Cofnodion
3. Y Cyfarfod Llawn a Threfn Busnes	BC(3)28-10: Papur 2 BC(3)29-10: Papur 1 BC(3)03-11: Papur 1 BC(3)03-11: Papur 2	BC(3)28-10: P2, Atodiad A BC(3)29-10: P1, Atodiad A BC(3)03-11: P1, Atodiad A BC(3)03-11: P2, Atodiad A	BC(3)28-10: P2, Atodiad B BC(3)29-10: P1, Atodiad B BC(3)03-11: P1, Atodiad B BC(3)03-11: P2, Atodiad B	BC(3)28-10: Cofnodion BC(3)29-10: Cofnodion BC(3)03-11: Cofnodion BC(3)04-11: Cofnodion

	BC(3)04-11: Papur 1	BC(3)04-11: P1, Atodiad A	BC(3)04-11: P1, Atodiad B	
4. Pwyllgorau	BC(3)29-10: Papur 2 BC(3)30-10: Papur 1 BC(3)03-11: Papur 3	BC(3)29-10: P2, Atodiad A BC(3)30-10: P1, Atodiad A BC(3)03-11: P3, Atodiad A	BC(3)29-10: P2, Atodiad B BC(3)30-10: P1, Atodiad B BC(3)03-11: P3, Atodiad B	BC(3)29-10: Cofnodion BC(3)30-10: Cofnodion BC(3)03-11: Cofnodion
5. Cyllid	BC(3)33-10: Papur 2 BC(3)03-11: Papur 6	BC(3)33-10: P2, Atodiad A BC(3)03-11: P6, Atodiad A	BC(3)33-10: P2, Atodiad B BC(3)03-11: P6, Atodiad B	BC(3)33-10: Cofnodion BC(3)03-11: Cofnodion
6. Deddfwriaeth	BC(3)33-10: Papur 4 BC(3)03-11: Papur 4 BC(3)03-11: Papur 5 BC(3)04-11: Papur 2	BC(3)33-10: P4, Atodiad A BC(3)03-11: P4, Atodiad A BC(3)03-11: P5, Atodiad A BC(3)04-11: P2, Atodiad A	BC(3)33-10: P4, Atodiad B BC(3)03-11: P4, Atodiad B BC(3)03-11: P5, Atodiad B BC(3)04-11: P2, Atodiad B	BC(3)33-10: Cofnodion BC(3)03-11: Cofnodion BC(3)04-11: Cofnodion
7. Adroddiadau ar y Trafodion	BC(3)33-10: Papur 5	BC(3)33-10: P5, Atodiad A	BC(3)33-10: P5, Atodiad B	BC(3)33-10: Cofnodion
8. Aelodau	BC(3)28-10: Papur 1 BC(3)33-10: Papur 3	BC(3)33-10: P3, Atodiad A	BC(3)28-10: P1, Atodiad B BC(3)33-10: P3, Atodiad B	BC(3)28-10: Cofnodion BC(3)33-10: Cofnodion

Atodiad 2 - Newidiadau wedi'u Marcio a Grid Esbonio (Saesneg yn unig)

INTERPRETATION	
<p>In these Standing Orders:</p> <p>“the Act” means the Government of Wales Act 2006;</p> <p>“an Assembly” means the period from an Assembly election to dissolution;</p>	<p>No amendment necessary</p>
<p>“Assembly election” means a general election held under the Act or the 2007 ordinary election held under the Government of Wales Act 1998;</p>	<p>Amend interpretation</p> <p>No longer relevant</p>
<p>“Assembly proceedings” means any proceedings of the Assembly, any committee of the Assembly or a sub-committee of such a committee;</p> <p>“Assembly year” means the period from 1 May in one year to 30 April in the following year;</p> <p>“Auditor General” means the Auditor General for Wales appointed under paragraph 1 of Schedule 8 to the Act;</p> <p>“Clerk” means the Clerk of the Assembly appointed under section 26(1) of the Act;</p> <p>“the Commission” means the Assembly Commission as defined in section 27 of the Act;</p>	<p>No amendment necessary</p>

<p>“Counsel General” means the Counsel General to the government appointed under section 49 of the Act;</p> <p>“Deputy” means the Deputy Presiding Officer elected under section 25(1)(b) of the Act;</p> <p>“Deputy Welsh Minister” means a Member appointed under section 50(1) of the Act;</p> <p>“First Minister” means the Member appointed under section 46(1) of the Act;</p> <p>“government” means Welsh Assembly Government, as defined in section 45(1) of the Act;</p>	
<p>“laid” means laid in the table office in accordance with Standing Order 29;</p>	<p>Amend interpretation</p> <p>This needs to be updated as Standing Order 29 now only refers to “the Clerk”, not the “Table Office”. In practice, the Table Office will still be responsible for receiving documents to be laid or business to be tabled. Any guidance to Members would make it clear that they should be sent to the Table Office.</p>
<p>“legislative competence order” means an Order in Council under section 95 of the Act;</p> <p>“Member” means an Assembly Member returned either for an Assembly constituency or for an Assembly electoral region;</p> <p>“member of the government” means the First Minister, a Welsh Minister, the Counsel General or a Deputy Welsh Minister;</p>	<p>No amendment necessary</p>

<p><u>“non-sitting week” means a week in which the Assembly does not sit in plenary;</u></p>	<p>Insert new interpretation</p> <p>This relates to the definition of “sitting week” below. It is helpful to have a short definition of a “non-sitting week” as it is currently described in full each time i.e. “a week in which the Assembly does not sit in plenary”.</p>
<p>“Ombudsman” means the Public Services Ombudsman for Wales appointed under the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005;</p> <p>“published” means publication on the Assembly website as a minimum requirement;</p> <p>“sitting week” means a week in which the Assembly sits in plenary;</p> <p>“subordinate legislation” means an Order in Council, order, rule, regulation, scheme, warrant, bye-law and other instrument made or to be made under any Act of the UK Parliament or Assembly Measure, or made or to be made under subordinate legislation;</p>	<p>No amendment necessary</p>
<p>“the Supreme Court” means the Supreme Court of the United Kingdom established under section 23(1) of the Constitutional Reform Act 2005; but until the coming into force of section 23(1) of that Act, references in the Standing Orders to “the Supreme Court” are to be read as references to the Judicial Committee of the Privy Council;</p>	<p>Amend this interpretation</p> <p>No longer relevant</p>
<p>“Welsh Minister” means any Member appointed as a Welsh Minister under section 48(1) of the Act;</p> <p>“the Welsh Ministers” is to be construed in accordance with section 45(2) of the Act;</p> <p>“working day” means any day unless it is:</p>	<p>No amendment necessary</p>

<ul style="list-style-type: none"> (i) a Saturday or a Sunday; (ii) Christmas Eve, Christmas Day, Maundy Thursday or Good Friday; (iii) a day which is a bank holiday in Wales under the Banking and Financial Dealings Act 1971; or (iv) a day appointed for public thanksgiving or mourning. 	
<p><u>Transitional arrangements</u></p> <p><u>At any time after the coming into force of the Assembly Act provisions (contained in Part 4 of the Act) and until the coming into force of revisions to these Standing Orders consequential on that event:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> (i) <u>references in these Standing Orders to Measures and Proposed Measures are to be interpreted as including references to Acts of the Assembly and Bills for Acts; and</u> (ii) <u>the reference in Standing Order 26.75 to the approval of an Assembly Measure by Her Majesty in Council is to be interpreted as a reference to Royal Assent to a Bill.</u> (iii) <u>references in these Standing Orders to sections 99, 100 and 101 of the Act are to be interpreted as including, in relation to Bills for Acts, references to sections 112, 113 and 114.</u> 	<p>Insert new interpretation</p> <p>Following the “yes” vote in the Referendum on the Assembly’s law-making powers, the Standing Orders will need to be reviewed to reflect the changes introduced by Part 4 of the Act (mostly the provisions relating to legislation and Assembly Measures in particular).</p> <p>Part IV will not commence until after the 2011 Assembly election. Any changes necessary to Standing Orders will therefore be presented to the Fourth Assembly for their consideration and agreement post May 2011.</p> <p>It is not anticipated that the fundamental procedure for legislative scrutiny of Bills under Part 4 will differ from that of Measures under Part III. The majority of changes necessary would, therefore, relate to terminology.</p> <p>However, to ensure that there is nothing to prevent legislation being introduced in the meantime, this transitional arrangement will be included in the interpretation section of the Standing Orders. It</p>

<u>respectively.”</u>	allows any references to Measures to be interpreted as a reference to Acts of the Assembly and proposed Measures as a reference to Bills.
-----------------------	---

STANDING ORDER 1 - Members	
Oath or Affirmation of Allegiance	
1.1 When the oath of allegiance is taken, or the corresponding affirmation made, under section 23 of the Act, it must be taken or made before the Clerk, in public or in private.	No amendment necessary
1.2 When a member of the government takes: <ul style="list-style-type: none"> (i) the official oath, or makes the corresponding affirmation; (ii) the oath of allegiance, or makes the corresponding affirmation, under section 55 of the Act, he or she must, within one working day, notify the Clerk in writing that he or she has done so.	No amendment necessary
Political Groups	
1.3 For the purposes of the Act, a political group is:	No amendment necessary

<ul style="list-style-type: none"> (i) a group of Members belonging to the same registered political party having at least three Members in the Assembly; or (ii) three or more Members who, not being members of a registered political party included in Standing Order 1.3(i), have notified the Presiding Officer of their wish to be regarded as a political group. 	
<p>1.4 The Presiding Officer must decide any question as to whether any Member belongs to a political group or as to which political group he or she belongs.</p>	<p>No amendment necessary</p>
<p>1.5 The Assembly is from time to time to determine, on a motion proposed by the Commission, the payments to be made to political groups under section 24 of the Act.</p>	<p>Delete this Standing Order</p> <p>This Standing Order is redundant as a consequence of the passing of the National Assembly for Wales (Remuneration) Measure 2010.</p> <p>The duty specified in SO 1.5 is now set out in the Measure.</p>
<p>1.6 The Commission must publish:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) every determination made under section 24 of the Act; and (ii) for each financial year, information about the sums paid to political groups in that financial year under section 24 of the Act. 	<p>Delete this Standing Order</p> <p>This Standing Order is redundant as a consequence of the passing of the National Assembly for Wales (Remuneration) Measure 2010.</p> <p>The duty specified in SO 1.6 is now the responsibility of the National Assembly for Wales Remuneration Board, not the Assembly Commission.</p>

<p>Salaries, Allowances and Pensions <u>Remuneration</u></p>	<p>Amend this title Replace “Salaries, Allowances and Pensions” with “Remuneration”</p>
<p>1.7 The Commission must, from time to time, determine and pay any the amount of the reduction in the salary of a Member required, allowance, pension, gratuity or other payment or amount mentioned in, or in accordance with, by sections 20, 21 or 53 of the Act.</p>	<p>Amend this Standing Order</p> <p>Following the passing of the National Assembly for Wales (Remuneration) Measure 2010, responsibility for the payment and determination of allowances, pensions, gratuity or other payments to Members now falls to the National Assembly for Wales Remuneration Board, not the Assembly Commission.</p> <p>The only remaining duty on the Commission is to determine the amount of the reduction in the salary of an Assembly member required by section 21 of the Government of Wales Act 2006.⁵⁰ This duty is retained in the revised SO 1.7.</p>
<p>1.8 The Commission must lay before the Assembly and publish any determination made under Standing Order 1.7 as soon as reasonably practicable after it has been made.</p>	<p>No amendment necessary</p>
<p>1.9 The Commission must publish information for each financial year concerning the amounts as salaries and allowances paid by the Commission to each Member and former Member, and</p>	<p>Delete this Standing Order</p> <p>This Standing Order is redundant as a consequence of the passing of</p>

⁵⁰ This section requires the Assembly to reduce the salary of any Assembly Member who also receives a salary as a Member of Parliament or a Member of the European Parliament.

concerning the total amount so paid.	the National Assembly for Wales (Remuneration) Measure 2010. The duty to publish is set out in the Measure.
1.10 The Assembly must, on a motion proposed by the Commission, elect Trustees to the National Assembly for Wales Members' Pension Scheme in accordance with the Scheme Rules.	No amendment necessary
Resignations and Vacancies	
1.11 A Member may resign his or her seat in the Assembly by giving notice in writing to the Presiding Officer.	No amendment necessary
1.12 For the purposes of section 10 of the Act, a vacancy occurs when the Presiding Officer receives a notice of resignation in accordance with Standing Order 1.11, or otherwise when the Presiding Officer declares that the seat has become vacant.	No amendment necessary
Different Roles and Responsibilities of Constituency Members and Regional Members	
1.13 The Assembly must make a code or protocol, to be drafted by the <u>committee responsible for the functions specified in Standing Order 16</u> Committee on Standards of Conduct , in accordance with section 36(6) of the Act, about the different roles and responsibilities of constituency Members and regional Members. The code or protocol must include provision in line with the following five key principles and the Annex to Standing Order 1:	<p>Amend this Standing Order</p> <p>Replace “Committee on Standards of Conduct” with “the committee responsible for the functions specified in Standing Order 16” - this amendment gives effect to the replacement of named committees in Standing Orders with function-based Standing Orders.</p> <p>Rather than stating that there must be a specific Committee on Standards of Conduct, the Business Committee must ensure that functions specified in Standing Order 16 (Standards of Conduct) are</p>

<ul style="list-style-type: none"> (i) all Members have a duty to be accessible to the people of the areas for which they have been elected to serve and to represent their interests conscientiously; (ii) in approaching the Member of their choice, the wishes of constituents and/or the interests of a constituency or locality are of paramount importance; (iii) all Members have equal status; (iv) Members should not misrepresent the basis on which they are elected nor the area they serve; and (v) no Member should deal with a constituency case or constituency issue that is not within his or her constituency or region (as the case may be), unless by prior agreement. 	<p>undertaken by a committee.</p> <p>The committee responsible for the functions specified Standing Order 16 would also be the responsible committee in relation to the functions currently undertaken by the Committee on Standards of Conduct under Standing Order 1.</p>
STANDING ORDER 1 – Members: Annex	
<p>Provision to be included in the code or protocol prepared under Standing Order 1.13 and in accordance with section 36(6) of the Act</p> <p>Describing Members</p> <p>1. Provision for regional and constituency Members to describe themselves accurately and for requirements regarding the use of Assembly resources, for example, stationery.</p> <p>Dealing with Constituency/Regional Issues</p>	<p>Amend paragraph 9 of the Annex</p> <p>As above</p>

2. Provision for Members to be able to take up a matter affecting the constituency or region for which they were elected whilst ensuring that courtesy is shown on matters affecting more than one constituency.

Individual Constituents' Cases

3. Provision to protect the right of a constituent to approach his or her constituency Member, and/or any of the four regional Members elected in his or her region.

Raising Matters with a Member of the Government

4. Provision to ensure that any Member is entitled to raise with the relevant member of the government a matter on behalf of a constituent in the area (constituency or region) for which they were elected.

Members Operating in their Areas

5. Provision reflecting the expectation that Members will work throughout the area (constituency or region) for which they were elected.

School Visits

6. Provision for notifying Members about official school visits to the Assembly organised by the Commission.

Telephone Enquiries

7. Provision to guide the way in which telephone enquiries from members of the public to the Assembly's switchboard, seeking

<p>to contact a Member, are dealt with.</p> <p>Members' Staff</p> <p>8. Provision that Members should ensure that staff working for them, both within the Assembly and locally, including others working on their behalf with constituents, are aware of and act in accordance with Standing Order 1.13 and any code or protocol drawn up as a result of it.</p> <p>Enforcement</p> <p>9. Provision for any complaint against a Member in respect of the code or protocol to be referred to the Committee on Standards of Conduct <u>committee responsible for the functions specified in Standing Order 16.</u></p>	
---	--

STANDING ORDER 2 - Presiding Officer and Deputy		
Election of Presiding Officer and Deputy		
2.1	At its first meeting after an Assembly election, the Assembly must elect from its Members a Presiding Officer and a Deputy.	No amendment necessary
2.2	If the office of the Presiding Officer or that of the Deputy becomes vacant, the Assembly must, as soon as possible,	No amendment necessary

<p>elect a Member to fill the vacancy. The election of a Presiding Officer takes precedence over all other business.</p>	
<p>2.3 Subject to Standing Order 2.4, the proceedings for the election of a Presiding Officer at the first meeting after an Assembly election are to be chaired by the Presiding Officer who held office immediately before the Assembly election (“the former Presiding Officer”), except that following the 2007 Assembly election the Clerk shall chair the proceedings.</p>	<p>Amend this Standing Order</p> <p>The reference at the end to the procedure following the 2007 Assembly election is now redundant and can be removed.</p>
<p>2.4 If:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) at the first meeting after a general <u>an Assembly</u> election the former Presiding Officer is unwilling or unable to act; or (ii) at any election of a Presiding Officer at any other time the Deputy is unwilling or unable to act, or there is no Deputy in office, <p>the proceedings for the election of a Presiding Officer are to be chaired by the Clerk.</p>	<p>Amend this Standing Order</p> <p>2.4(i) - Wording amended for consistency with Standing Order 7.</p>
<p>2.5 No Member who chairs proceedings for the election of a Presiding Officer may be nominated for election as Presiding Officer in those proceedings.</p>	<p>No amendment necessary</p>
<p>2.6 At the election of a Presiding Officer or a Deputy, the chair must invite nominations. A nomination is, in the first instance, valid only if seconded by a Member who is not a member of the political group to which the nominating Member belongs.</p>	<p>No amendment necessary</p>

<p>2.7 If it appears that no Member is likely to be nominated and seconded by members of different political groups, the chair must adjourn the proceedings and may, on their resumption, accept nominations which are seconded by members of the same political group as the nominating Member.</p>	<p>No amendment necessary</p>
<p>2.8 If there is only one nomination, the chair must propose that the Member nominated be elected as Presiding Officer (or Deputy as the case may be). If that is opposed, or if there are two or more nominations, the chair must make arrangements for the election to take place by secret ballot.</p>	<p>No amendment necessary</p>
<p>2.9 If two Members have been nominated, the chair must declare elected the Member who has secured the greater number of votes cast in the ballot.</p>	<p>No amendment necessary</p>
<p>2.10 If more than two Members have been nominated and no Member receives more than half of the votes cast in a ballot, the candidate who has received the smallest number of votes is excluded and further secret ballots held until one candidate obtains more than half of the votes cast; and if there is an equality of votes between the two remaining candidates (or the only two candidates) a further secret ballot must take place.</p>	<p>No amendment necessary</p>
